

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

Dyddiad:

Dydd Llun, 22 Mehefin 2015

Amser:

14.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Naomi Stocks

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMCD@Cynulliad.Cymru

Agenda

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

**2 Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Datganoli Pellach i Gymru –
Sesiwn Dystiolaeth (Panel) (Tudalennau 1 – 69)**

Yr Athro Thomas Glyn Watkin

Emyr Lewis, Blake Morgan LLP

Yr Athro Adam Tomkins, Prifysgol Glasgow (drwy gyswllt fideo)

**CLA(4)–17–15 – Papur 1 – Powers for a Purpose: Towards a Lasting Devolution
Settlement for Wales.**

CLA(4)–17–15 – Papur 2 – Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

**3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol
Sefydlog 21.2 neu 21.3**

(Tudalennau 70 – 73)

CLA(4)-17-15 – Papur 3 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

CLA541 – Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Mehefin 2015; Fe'u gosodwyd ar: 9 Mehefin 2015; Yn dod i rym ar: 1 Hydref 2015

CLA542 – Rheoliadau'r Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Mehefin 2015; Fe'u gosodwyd ar: 9 Mehefin 2015; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

CLA547 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 5 Mehefin 2015; Fe'u gosodwyd ar: 12 Mehefin 2015; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA543 – Rheoliadau'r Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: 2015; Fe'u gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

CLA544 – Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015
Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

CLA545 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Mentrau Cydweithredol a'r Trydydd Sector)
Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'i gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'i gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

CLA546 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2016

4 Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) 5 – Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015 (Tudalennau 74 – 90)

CLA(4)–17–15 – Papur 4 – Llythyr oddi wrth Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

CLA(4)–17–15 – Papur 5 – Rheoliadau

CLA(4)–17–15 – Papur 6 – Memorandwm Cydsyniad

5 Cynnig am Reoliad Ewropeaidd ar Organebau a Addaswyd yn Enetig (Tudalennau 91 – 97)

Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n Diwygio Rheoliad (EC) rhif 1829/2003 ynghylch y posibilrwydd y gall Aelod-Wladwriaethau gyfyngu ar, neu wahardd, y defnydd o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar eu tiriogaeth

CLA(4)–17–15 – Papur 7 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Sybsidiaredd a chymesuredd

6 Papurau i'w nodi (Tudalennau 98 – 102)

CLA(4)–17–15 – Papur 8 – Llythyr oddi wrth Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ar Fil yr Amgylchedd (Cymru).

7 Preifat

(vi) lle mae'r Pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

8 Ystyried y dystiolaeth

9 Adroddiad drafft: Bil yr Amgylchedd (Cymru) (Tudalennau 103 – 119)

CLA(4)–17–15 – Papur 10 – Adroddiad drafft



HM Government

PWERAU AT BWRPAS: **TUAG AT SETLIAD DATGANOLI SY’N** **PARA I GYMRU**

Chwefror 2015





PWERAU AT BWRPAS: TUAG AT SETLIAD DATGANOLI SY’N PARA I GYMRU

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2015

Cm 9020



© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y dywedir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch ebost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod deunydd dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom ni: correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Fersiwn wedi'i hargraffu ISBN 9781474115735

Fersiwn ar y we ISBN 9781474115742

ID 20021501

03/15

Mae'r papur a ddefnyddiwyd i argraffu'r ddogfen yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

Fe'i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair

Crynodeb Gweithredol

Pennod 1 Cyflwyniad

Pennod 2 Argymhellion Comisiwn Silk

2.1 Model Datganoli i Gymru

2.2 Materion Cyfansoddiadol

2.3 Cysylltiadau rhwng y Llywodraethau

2.4 Adnoddau Naturiol

2.5 Trafnidiaeth

2.6 Iechyd

2.7 Cyflogaeth a Sgiliau

2.8 Darlledu

2.9 Cyfiawnder a Chydraddoldeb

2.10 Y Gymraeg

2.11 Argymhellion Eraill

2.12 Costau

Pennod 3 Cytundeb Comisiwn Smith

Pennod 4 Ariannu a Datganoli Cyllidol yng Nghymru

Pennod 5 Edrych Tua'r Dyfodol

Atodiad A Argymhellion Comisiwn Silk: Consensws Gwleidyddol

Atodiad B Y Meysydd Lle y Byddai Angen Cadw Pwerau yn Ôl: Rhestr Enghreifftiol

Atodiad C Enghraifft o Bwerau a Gedwid yn Ôl o dan Fodel Cadw Pwerau

Atodiad D Materion i'w Hystyried wrth symud oddi wrth Fodel Rhoi Pwerau at Fodel Cadw Pwerau

Rhagair



Y Deyrnas Unedig yw'r undeb gwleidyddol mwyaf llwyddiannus a welodd y byd erioed. Roedd penderfyniad pobl yr Alban ar 18 Medi 2014 i aros yn rhan undeb hwnnw yn gyfle unigryw i ail-lunio a sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig, ac fe wnaeth Prif Weinidog y Deyrnas Unedig hi'n glir ei fod yn dymuno gweld Cymru wrth galon y drafodaeth honno. Mae'r papur hwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw ac yn parhau â'r broses sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru. Mae'n gosod y llwybr i sicrhau setliad datganoli clir, cadarn i Gymru a hwnnw'n setliad a fydd yn para.

Mae gan y Llywodraeth glymblaid hon hanes cryf o fwrw ymlaen â datganoli yng Nghymru gan adlewyrchu'r farn gyhoeddus. Yn 2011, darparwyd refferendwm a welodd y Cynulliad yn cael pwerau deddfu llawn ar draws yr holl feysydd polisi a oedd wedi'u datganoli iddo. Hefyd, pasiwyd Deddf Cymru 2014, gan ddatganoli pecyn cynhwysfawr o bwerau trethu a benthyca i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi alluogi economi Cymru i dyfu. Roedd y Ddeddf honno'n rhoi ar waith bron pob un o'r argymhellion yn adroddiad cyntaf 'Comisiwn Silk', y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Roedd ail adroddiad Comisiwn Silk, Silk II, yn ystyried terfynau'r setliad datganoli presennol i Gymru; mae'r adroddiad hwnnw'n sail i'r gwaith sy'n sylfaen i'r papur hwn. Yn ogystal ag argymhelliad Silk II mae'r papur yn ystyried beth y gallai'r pwerau newydd a gynigir ar gyfer Senedd yr Alban gan Gomisiwn Smith ei olygu i Gymru.


Mae'r haen olaf o waith y sonnir amdani yn y papur hwn yn ymwneud a datganoli ariannol a chyllidol yng Nghymru, gan adeiladu ar Ddeddf Cymru 2014 a'r buddsoddiadau yn yr economi Gymreig o dan y Llywodraeth hwn. I alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ran pobl Cymru, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno llawr ar gyfer lefel ariannu cymharol y mae'n darparu i Llywodraeth Cymru yn y disgwyliad y bydd yn galw refferendwm ar bwerau treth incwm yn y Senedd nesaf.

Rwyf am sefydlu setliad datganoli eglurach i Gymru; un sy'n sefyll prawf amser. Rwy'n credu'n gryf y dylai fod pwrpas clir bob tro i ddatganoli pwerau newydd i'r Cynulliad, ac y dylai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw arfau a dulliau ysgogi newydd i roi Cymru mewn sefyllfa gryfach i ddatblygu fel cenedl.

Er mwyn cyflawni hyn, rwyf wedi arwain proses drawsbleidiol i sicrhau consensws gwleidyddol o blaid rhagor o ddatganoli i Gymru. Rwy'n ddiolchgar i gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol Cymru yn San Steffan am eu hagwedd

gadarnhaol ac adeiladol at ein trafodaethau ac i arweinyddion y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, y Llywydd ac i gynrychiolwyr byd busnes ac academyddion am gymryd rhan. Bydd y trafodaethau'n parhau wrth inni symud i roi'r cytundeb hwn ar waith, yn enwedig wrth ddatblygu'r model cadw pwerau. Credaf fod gennym yn awr lasbrint cryf ar gyfer cyflwyno Bil Cymru newydd yn y Senedd nesaf.

Mae er budd gorau pobl Cymru fod gennym setliad datganoli clir sy'n rhoi llais cryfach iddynt dros eu materion eu hunain o fewn Teyrnas Unedig gref a llwyddiannus. Mae'r papur hwn yn gosod y llwybr er mwyn cyflawni hynny.

A handwritten signature in black ink, reading "Stephen Crabb". The signature is written in a cursive style with a large initial 'S'.

Y Gwir Anrh Stephen Crabb AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Papur Gorchymyn hwn yn cynnig glasbrint ar gyfer datganoli yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn gwneud setliad Cymru yn eglurach, ac yn fwy sefydlog a hirhoedlog.

Rhennir y papur yn dair prif bennod. Mae Pennod 2 yn disgrifio ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig lle y cafwyd consensws gwleidyddol o blaid cytuno ag argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn 'Silk') yn ei ail adroddiad ("Silk II"). Rhoddir crynodeb o'r consensws hwnnw yn Atodiad A.

Y prif argymhellion yn Silk II yw y dylid newid y model datganoli yng Nghymru: dylai Cymru fabwysiadu model cadw pwerau gan ei gwneud yn glir pa bwerau a fyddai'n cael eu cadw gan Senedd y Deyrnas Unedig. Byddai unrhyw bwerau na fyddent yn cael eu cadw'n cael eu datganoli a byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu pasio cyfreithiau yn y meysydd hynny.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i roi model cadw pwerau ar waith i Gymru, ac wedi dechrau ar raglen waith i baratoi'r model. Rhoddir rhestr enghreifftiol o'r meysydd lle y byddai angen cadw pwerau yn ôl yn Atodiad B, a rhoddir enghreifftiau o'r pwerau a gedwid yn ôl a fyddai'n cael eu cynnwys yn y model yn Atodiad C. Yn Atodiad D, rhestrir y materion y byddai angen eu hystyried wrth symud at fodel cadw pwerau.

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi llawer o argymhellion eraill Silk II ar waith, gan ddatganoli ystod o bwerau ychwanegol i'r Cynulliad mewn meysydd megis ynni, trafniadaeth a'r amgylchedd. Bydd y Cynulliad yn ennill pwerau newydd hefyd i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'i weithredu a'i drefniadaeth, gan gynnwys yr enw y bydd yn ei roi arno'i hun.

Mae Pennod 3 yn cadarnhau'r argymhellion anghyllidol ar gyfer yr Alban yng Nghytundeb Comisiwn Smith y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu eu hystyried a'u dadansoddi'n fwy manwl gyda golwg ar Gymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penderfynu ymrwymo yn awr i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol becyn tebyg o bwerau cyfansoddiadol ag sy'n cael eu datganoli i Senedd yr Alban. Mae hyn yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad, a strwythur etholiadol y Cynulliad. Mae wedi penderfynu hefyd y dylid datganoli trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir o dan Gymru. Bydd nifer o argymhellion eraill Smith yn cael eu harchwilio er mwyn penderfynu a ddylid eu rhoi ar waith i Gymru.

Mae Pennod 4 yn asesu datganoli cyllidol ac ariannu i Gymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi cyflwyno rhaglen sylweddol o ddatganoli cyllidol yng Nghymru ac wedi ymrwymo i fuddsoddiad mawr yn y economi Gymreig ers dod i rym yn 2010.

Gan adeiladu ar hyn, er mwyn grymuso Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ran pobl Cymru, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno i gyflwyno terfyn isaf ar gyfer lefel yr ariannu cymharol a gaiff Llywodraeth Cymru ganddi, gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn galw refferendwm ar bwerau treth incwm yn y Senedd nesaf.

Bydd angen i'r trefniadau ariannu y tu hwnt i'r Senedd nesaf roi sylw llawn i bwerau a chyfrifoldebau newydd Llywodraeth Cymru, ac ystyried yr effaith sylweddol y gallai datganoli trethi ei chael ar ei hariannu. Byddai rhoi cyfraddau treth incwm ar waith yng Nghymru, er enghraifft, yn dyblu'r refeniw treth a fyddai o dan reolaeth y Cynulliad. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau ariannu tymor hir cynaliadwy o fewn fframwaith cyllidol cadarn sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir.

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi bondiau i fenthylg ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn ychwanegol, bydd yn ystyried yr achos a'r opsiynau ar gyfer datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad dros y Dreth Teithwyr Awyr, wedi llywio gan adolygiad o opsiynau posib i leddfu dylanwad datganoli Dreth Teithwyr Awyr ar feysydd awyr rhanbarthol.

Mae'r newidiadau a restrir yn y papur hwn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer deddfu yn fuan yn y Senedd nesaf. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar sut orau mae gwireddu'r pecyn hwn, ac, yn benodol, er mwyn ceisio cytundeb â'r partïon perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, ynghylch model cadw pwerau i Gymru.

Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Ym mis Medi 2014, ymrwymodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru wrth galon y drafodaeth am ddyfodol datganoli yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl refferendwm annibyniaeth yr Alban, sefydlodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Bwyllgor Cabinet ar ddatganoli i edrych ar bwerau datganoledig i Gymru, ochr yn ochr â'r rheini i Loegr a Gogledd Iwerddon, a phwerau newydd i'r Alban.

1.2 Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o'r Pwyllgor hwn ac o dan ei adain a'i oruchwyliaeth, cyhoeddodd Raglen Datganoli Cymru ar 17 Tachwedd 2014, gan gadw addewid Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. Ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canlyniad y Rhaglen erbyn Dydd Gŵyl Dewi 2015 ac ers hynny, mae'r Rhaglen wedi cael ei galw'n broses Dydd Gŵyl Dewi.

1.3 Mae'r papur hwn yn sôn am ganlyniad y broses honno, a chynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer setliad datganoli mwy eglur, sefydlog a hirhoedlog i Gymru.

1.4 Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol drafodaethau â'r pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru¹, gan ganolbwyntio ar argymhellion y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn 'Silk') yn ei ail adroddiad², a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014. Roedd adroddiad y Comisiwn, a elwid yn "Silk II" yn gwneud 61 o argymhellion am bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") ac addasiadau i'r terfyn datganoli. Mae canlyniad y trafodaethau hynny i'w gweld yn Atodiad A.

1.5 Cafodd barn arweinyddion y pleidiau yn y Cynulliad ac yn Llywodraeth Cymru ei bwydo i'r trafodaethau hynny, ynghyd â barn partion perthnasol eraill, gan gynnwys Llywydd y Cynulliad, byd busnes yng Nghymru³ a chymdeithas sifil yng Nghymru.

1.6 Mae'r papur hwn yn disgrifio sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu rhoi ar waith yr argymhellion hynny yn Silk II yr oedd consensws o'u plaid. Mae hefyd yn gosod allan argymhellion anghyllidol y Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu ystyried ymhellach i Gymru, gan edrych ar ddatganoli cyllidol ac ariannu yng Nghymru.

1.7 Pecyn cryf o bwerau newydd i Gymru yw hwn, sydd wedi'i seilio ar fodel datganoli newydd. Mae'n datganoli pwerau ychwanegol i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru lle gwelir bod pwrpas clir i wneud hynny. Mae hefyd yn gosod llwybr clir ar gyfer deddfu'n fuan yn y Senedd nesaf er mwyn rhoi setliad datganoli newydd ar waith i Gymru a hwnnw'n setliad sy'n para.

¹ Cynhaliwyd trafodaethau â chynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol yn San Steffan.

² Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Mawrth 2014.

³ Gan gynnwys cynrychiolwyr busnes ar Fwrdd Cynghori Economaidd yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.8 Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth, rhaid gofalu ymgynghori ac ymgysylltu â phawb sydd â budd yn hyn yng Nghymru, ac yn enwedig â byd busnes yng Nghymru

1.9 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried sut y mae eu polisiau neu eu penderfyniadau yn effeithio ar bobl sydd wedi'u gwarchod o dan y Ddeddf - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁴. Ni wnaiff cynigion y papur hwn achosi unrhyw newid yn y pwerau ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynid wedyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn achosi dim newid o ran cydraddoldeb oherwydd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn trosglwyddo pwerau a swyddogaethau i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru yn eu cyfanrwydd.

1.10 Yn y cyswllt hwn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ystyried y canlynol hefyd:

- adeg datganoli, byddai Llywodraeth Cymru yn gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd cyfrifoldeb yng nghyswllt pwerau newydd;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw dyledus yn gyson i gydraddoldeb yn ei gweithgarwch⁵; ac
- oherwydd bod pwerau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu cadw'n gyffredinol, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu gostwng lefel y warchodaeth sydd yn y ddeddf honno.

⁴ <https://www.gov.uk/equality-act-2010-guidance>

⁵ <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/equality-diversity/?lang=cy>

Pennod 2: Argymhellion Comisiwn Silk

2.0.1 Yn y bennod hon, rhoddir ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r argymhellion hynny gan Gomisiwn Silk lle mae consensws trawsbleidiol o blaid eu rhoi ar waith.

2.0.2 Nid ydym yn trafod yr argymhellion hynny nad oes consensws o'u plaid. Mae canlyniad y trafodaethau trawsbleidiol i'w weld yn Atodiad A.

2.1 Model Datganoli i Gymru

2.1.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhelliad a ganlyn gan Gomisiwn Silk:

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|---|
| 1 | Yn lle'r model presennol, sef model rhoi pwerau, dylid cael model cadw pwerau yn ôl. Dylai'r ddwy Lywodraeth gytuno ar broses ac amserlen ar gyfer datblygu'r deddfwriaeth newydd a chytuno arni, deddfwriaeth a fydd yn rhestru'r pwerau a gedwir gan San Steffan. |

Model Cadw Pwerau i Gymru

2.1.2 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid seilio'r setliad datganoli i Gymru ar fodel cadw pwerau. Dyma'r model sy'n sail i'r setliad datganoli yn yr Alban. Byddai model cadw pwerau'n cynnig setliad datganoli mwy cydlynol, sefydlog sy'n gweithio'n well i Gymru: un sy'n gweithio er budd Cymru a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw.

Y Model Datganoli sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd

2.1.3 Ar hyn o bryd, model datganoli sy'n *rhoi* pwerau sydd gan Gymru. Mae'r model yn rhestru'r pynciau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad, a Senedd y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am bopeth arall. Fe'i rhoddir ar waith drwy Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhestru'r pynciau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad ac unrhyw eithriadau i bwerau'r Cynulliad o fewn y pynciau hynny y mae Senedd y Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, mae rheoli a rheoleiddio traffig wedi'u datganoli, ond mae agweddau penodol ar reoli traffig, megis troseddau traffig y ffordd, heb eu datganoli.

2.1.4 Ar y llaw arall, model datganoli sy'n cadw pwerau sydd yn yr Alban. Mae hyn yn golygu bod cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i ddatganoli i Senedd yr Alban ym mhob maes ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig drwy statud.

2.1.5 Pennwyd model cychwynnol datganoli Cymru drwy statud yn 1998⁶. Roedd rhai pethau'n debyg rhyngddi a'r modelau a ddefnyddid yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon o ran bod corff datganoledig wedi'i sefydlu a oedd yn gyfrifol am swyddogaethau a ddatganolwyd o lefel y Deyrnas Unedig. Roedd hefyd yn wahanol i'r modelau hynny o ran ei fod yn ffurf ar ddatganoli gweithredol, ac nad oedd ond yn rhoi'r pwerau hynny a oedd wedi'u disgrifio'n benodol yn y ddeddfwriaeth ei hun. O safbwynt ymarferol, roedd llawer o bwerau gweithredol y Cynulliad gynt yn cael eu harfer gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

2.1.6 Roedd dechrau datganoli yng Nghymru wrth gwrs o bwys hanesyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol mawr, i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig drwyddi draw, ond nid oedd iddi'r un ehangder na'r un dyfnder â datganoli mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

2.1.7 Cyflwynwyd newidiadau pwysig yn Neddf Llywodraeth Cymru⁷. Roedd y rhain yn ad-drefnu strwythurau datganoli yng Nghymru, ac yn sefydlu deddfwrfa (y Cynulliad) a gweithrediaeth (a elwid bryd hynny yn Llywodraeth Cynulliad Cymru) ar wahân. Rhoddwyd pwerau i'r Cynulliad greu deddfwriaeth sylfaenol am y tro cyntaf. Cyfyngwyd ar y pwerau hynny, serch hynny, ac roedd hynny'n wahanol i'r setliadau datganoli eraill, yn anad dim, am fod gofyn ceisio cymeradwyaeth y Senedd fesul achos am unrhyw estyniad ar bwerau'r Cynulliad⁸.

2.1.7 Mae datganoli gam wrth gam fel hyn yng Nghymru wedi golygu nad yw ffurf gychwynnol setliad Cymru wedi newid: er bod pwerau ehangach, deddfwriaethol mwy sylweddol wedi'u rhoi i'r Cynulliad ar ôl refferendwm y Cynulliad yn 2011, ni newidiwyd dim ar sylfeini'r model datganoli ei hun.

2.1.8 Roedd y Cynulliad, a'i bwerau'n cynyddu o hyd, yn dibynnu ar fodel datganoli a oedd wedi'i seilio ar y pwerau gweithredol a roddid ar waith cyn datganoli. Estynnwyd system a grëwyd ac a gynlluniwyd yn wreiddiol i fod yn system i drosglwyddo pwerau gweithredol i'w defnyddio gan ddeddfwrfa gyflawn. Canlyniad hynny oedd bod pwerau penodol yn cael eu trosglwyddo fesul tipyn, a'r rheini'n aml yn cael eu disgrifio'n gyffredinol, yn hytrach na bod popeth nad oedd wedi'i gadw'n benodol yn cael ei ddatganoli (y model cadw pwerau).

2.1.9 Ers refferendwm 2011 ar bwerau'r Cynulliad, mae'r Cynulliad yn awr yn arfer cymhwysedd deddfwriaethol ym mhob un o'r ugain pwnc sydd wedi'u datganoli i Gymru. Ond cyffredinol o hyd yw'r disgrifiad o'r pynciau y trosglwyddwyd pwerau ar eu cyfer, ac nid oes cyfeiriad yn Atodlen 7 at lawer o'r meysydd polisi sydd fel rheol yn cael eu hystyried yn rhai sydd heb eu

⁶Yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 1999.

⁷ Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn ar waith ddechrau'r Trydydd Cynulliad ym mis Mai 2007.

⁸ Trosglwyddwyd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a thrwy bwerau a elwid yn Bwerau "fframwaith" mewn Deddfau Seneddol.

datganoli. Ni fwriedid erioed i'r eithriadau fod yn rhestr gyflawn o'r hyn sydd heb ei ddatganoli⁹; ni fwriedid ond iddynt egluro'r hyn y gallai rhywun fel arall ddehongli eu bod wedi'u cynnwys yn y pynciau a drosglwyddwyd.

2.1.10 Roedd y ffordd y datblygodd datganoli yng Nghymru yn golygu, mewn gwirionedd, fod rhagor o bwerau wedi'u hychwanegu at hen sylfeini nad oeddent wedi'u cynllunio ar eu cyfer o gwbl. Ni chafodd datganoli ei ailadeiladu ar sylfeini a oedd wedi'u diweddarau er mwyn adlewyrchu pwerau deddfwriaethol newydd y Cynulliad. O ganlyniad, mae sefydlogrwydd ac eglurdeb y sylfeini hyn wedi bod yn agored i ddadleuon a heriau cynyddol. Credwn fod angen diwygio sylfaenol ar sylfeini datganoli Cymru yn awr.

Cyfyngiadau Strwythurol y Model Presennol

2.1.11 Mae'r model datganoli presennol, model rhoi pwerau, yn cynnwys cyfyngiadau strwythurol pwysig. Nid yw terfynau'r setliad bob tro'n glir ac yn amlwg, ac nid yw bod tro'n glir am beth mae'r Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig yn gyfrifol. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o feysydd polisi heb eu rhestru yn y model rhoi pwerau. Credwn fod hyn yn rhwystr, ac mae'n golygu ei bod yn fwy anodd dal penderfynwyr yn atebol.¹⁰

2.1.12 Nid yw'r un model datganoli'n berffaith. Ond, ein barn ni yw y byddai model cadw pwerau'n golygu ei bod yn haws rhagweld y canlyniadau, drwy ei gwneud yn glir beth sydd *heb* ei ddatganoli.

2.1.13 Ni fyddai wedi bod yn bosibl rhagweld goblygiadau'r cyfyngiadau strwythurol hyn pan sefydlwyd datganoli, ond maent wedi dod yn fwy amlwg a phwysig wrth i amser fynd heibio. Mae'r broblem benodol yn codi pan fydd deddfwriaeth y Cynulliad yn berthnasol i bwnc sydd wedi'i ddatganoli a hefyd i bwnc y mae Atodlen 7 yn dawel yn ei gylch.

Dyfarniad y Goruchaf Lys ar Fil y Sector Amaethyddol (Cymru)

2.1.14 Ym mis Gorffennaf y llynedd, penderfynodd y Goruchaf Lys, mewn achos a oedd yn berthnasol i reoleiddio cyflogau amaethyddol, fod deddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad os yw'n berthnasol mewn ffordd deg a realistig i bwnc sydd wedi'i ddatganoli, hyd yn oed os yw hefyd yn berthnasol i un y mae Atodlen 7 yn dawel yn ei gylch.

2.1.15 Roedd y Llys yn penderfynu ynghylch yr achos ger ei fron, ond mae ei ddyfarniad yn berthnasol yn fwy cyffredinol: i holl ddeddfwriaeth y Cynulliad ar bwnc datganoledig a allai fod yn berthnasol hefyd i bwnc y mae Atodlen 7 yn dawel yn ei gylch. Nid oedd yn fwiad i'r model rhoi pwerau greu'r lefel hon

⁹Roedd Papur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 1997 ar ddatganoli i Gymru yn rhestru pynciau nad ydynt yn ymddangos yn eithriadau yn Atodlen 7 fel pynciau nad oeddent wedi'u datganoli (Llais i Gymru: cynigion y Llywodraeth ar gyfer Cynulliad i Gymru 1997, paragraff 1.9. Cm3718).

¹⁰ Mae rhai sylwebwyr wedi galw'r rhain yn "bynciau tawel": pynciau nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhai y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ynddynt nac ychwaith yn eithriadau i'r cymhwysedd hwnnw.

o ansicrwydd am derfynau datganoli.

2.1.16 Yn sgil y dyfarniad, sefydlwyd ymhle'r oedd y pŵer i basio un darn penodol o ddeddfwriaeth: deddfu ar gyflogau amaethyddol. Cyfeiriodd at egwyddorion ond nid oedd yn gynnig ateb ar gyfer holl achosion y dyfodol ac ni allai wneud hynny ychwaith¹¹.

Blwch 1: Dyfarniad y Goruchaf Lys

Ym mis Gorffennaf 2014, rhoddodd y Goruchaf Lys ddyfarniad ynglŷn â dehongli'r model rhoi pwerau datganoli yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Llys bennu beth oedd deunydd pwnc Bil Sector Amaethyddol y Cynulliad (Cymru) a oedd yn darparu ar gyfer trefn cyflogau amaethyddol yng Nghymru.

Cydnabu'r Llys fod y Bil y gallai'r Bil gyfeirio at "amaethyddiaeth" (pwnc sydd wedi'i ddatganoli'n benodol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru) ac at "gyflogaeth" ('pwnc tawel'; nad yw wedi'i ddatganoli'n benodol na'i eithrio yn Atodlen 7).

Serch hynny, barn y Llys oedd bod y Bil o fewn cymhwysedd ar y sail ei fod yn bodloni'n deg ac yn realistig y prawf sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn berthnasol i bwnc datganoledig ac nad yw'n dod o fewn eithriad. Nid oedd gwahaniaeth y gallai'r Bil hefyd fod yn berthnasol i bwnc nad oedd wedi'i grybwyll yn Atodlen 7.

2.1.17 Nid oes dim atebion rhwydd i fater y 'pynciau tawel' ym model datganoli presennol Cymru, ond mae'r amwysedd a'r ansicrwydd sy'n gynhenid i'r model presennol yn amlwg.

2.1.18 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu felly ei bod yn bryd ailosod y setliad datganoli i Gymru. Mae *angen datblygu* ffordd newydd o feddwl am ddatganoli a model newydd sydd wedi'i seilio ar gadw pwerau. Byddai hynny'n rhoi mwy o eglurdeb a chysondeb i setliad Cymru gan olygu ei bod yn llai tebygol y gwelwn achosion yn cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys a helpu i atgyfnerthu setliad mwy sefydlog ar gyfer y tymor hwy.

Paratoi Model Cadw Pwerau i Gymru

2.1.19 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn edrych o'r newydd ar y setliad datganoli presennol i Gymru gyda golwg ar symud at fodel cadw pwerau. Mae Atodiad B yn rhoi rhestr enghreifftiol o'r prif feysydd lle'r ydym yn disgwyl y bydd angen cadw pwerau.

2.1.20 Wrth i broses Dydd Gŵyl Ddewi fynd rhagddi, rydym wedi bod yn gweithio i baratoi model cadw pwerau i Gymru, wedi'i seilio ar feysydd sydd wedi'u rhestr yn Atodiad B.

¹¹Cyhoeddodd y Goruchaf Lys ei ddyfarniad ar Fil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru) ar 9 Chwefror 2015. Cyfeiriwyd y Bil at y Llys gan y Cwnsler Cyffredinol.

2.1.21 Mae'r gwaith hwn yn gymhleth. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr wedi'i hintegreiddio i raddau helaeth ac mae'r ddwy wlad yn rhannu'r un awdurdodaeth gyfreithiol. Mae hanes a daearyddiaeth Cymru yn golygu bod ei sefydliadau wedi'u cydblethu fwy â rhai ei chymydog. Mae'r cymhlethdod hwn yn cael ei adlewyrchu yn setliad datganoli Cymru.

2.1.22 Ni fydd y model newydd, ac ni allai fyth fod, yn ddim mwy nag ailddatgan y model *rhoi pwerau* presennol ar ffurf cadw pwerau oherwydd bydd o reidrwydd yn cynnwys y pynciau y mae'r model presennol yn dawel yn eu cylch (megis amddiffyn).

2.1.23 Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud hyd yn hyn i baratoi'r model newydd ac mae rhagor o waith i'w wneud eto. Un maes rydym wedi bod yn edrych arno yw hwnnw a nodir yn Atodiad C, gan roi enghraifft o sut olwg fyddai ar bwerau cadw o fewn model cadw pwerau.

2.1.24 Pan fydd y gwaith hwn wedi'i orffen, byddwn yn trafod y model arfaethedig â'r sawl sydd â budd yn y maes, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Mae'r materion y mae angen eu hystyried wrth symud o fodel rhoi pwerau at fodel cadw pwerau wedi'u rhestru mewn rhestr wirio yn Atodiad D.

2.1.25 Nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw sicrhau cytundeb cyffredinol ynghylch model cadw pwerau sy'n darparu sefydlogrwydd yn y setliad datganoli i Gymru, ac a fyddai'n barod i'w gynnwys mewn deddfwriaeth yn fuan yn y Senedd nesaf.

2.1.26 Dylai symud at fodel cadw pwerau fod ynddo'i hun yn niwtral o ran cost. Os bydd unrhyw faterion ynghylch cost yr ariannu'n codi, caiff y rheini eu datrys yn unol â pharagraff 2.12.1 y papur hwn.

Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

2.1.27 Roedd consensws y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ystyried yn brydlon unrhyw bwerau Gweinidogion y Goron a allai fod ym Miliâu'r Cynulliad Cenedlaethol gan ragdybio y dylid cydsynio. Nid oedd consensws o blaid trosglwyddo swyddogaethau cyn-datganoli Gweinidogion y Goron yn gyffredinol i Weinidogion Cymru.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|-------------|---|
| 2 | Dylid trosglwyddo'n gyffredinol i Weinidogion Cymru'r pwerau a oedd gan Weinidogion y Goron cyn datganoli, heblaw am eithriadau angenrheidiol. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ystyried yn brydlon unrhyw bwerau Gweinidogion y Goron a allai fod ym Miliâu'r Cynulliad Cenedlaethol gan ragdybio y dylid cydsynio. |

2.1.28 Swyddogaethau a arferir gan Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw swyddogaethau Gweinidogion y Goron a roddir iddynt drwy Ddeddfau sy'n estyn i Gymru a Lloegr. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae rhai o swyddogaethau Gweinidogion y Goron yn yr ugain maes sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru, achos wrth achos, gyda chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel arall, byddant yn parhau heb eu datganoli ac yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

2.1.29 O dan y trefniadau presennol, ni all y Cynulliad na Gweinidogion Cymru, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ddeddfu i :

- ddileu neu addasu unrhyw un o swyddogaethau "rhag-gychwyn" un o Weinidogion y Goron sy'n *bodoli eisoes*; na
- throsglwyddo unrhyw swyddogaeth *newydd* i un o Weinidogion y Goron neu orfodi swyddogaeth o'r fath arnynt.

2.1.30 Swyddogaeth "rag-gychwyn" yw swyddogaeth y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ei harfer cyn 5 Mai 2011 - y diwrnod yr ysgwyddodd y Cynulliad ei bwerau llawn i greu deddfau ar ôl refferendwm y Cynulliad yn 2011. Mae holl ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ar ôl 5 Mai 2011 yn adlewyrchu'r setliad datganoli presennol drwy drosglwyddo swyddogaethau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt Lloegr ac i Weinidogion Cymru (gyda'u cydsyniad) yng nghyswllt Cymru.

2.1.31 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai fod rhagdybiaeth o blaid cydsynio i ddarpariaeth yn un o Ffiliau'r Cynulliad sy'n dileu neu'n addasu un o swyddogaethau rhag-gychwyn un o Weinidogion y Goron mewn maes sydd wedi'i ddatganoli. Rydym hefyd yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw geisiadau o'r fath yn brydlon yn unol ag amserlen y bydd y ddwy Lywodraeth yn cytuno arni. Byddwn yn adolygu'r canllawiau ar gyfer Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig¹² er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith.

2.2 Materion Cyfansoddiadol

2.2.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 42 | Dylid datganoli gweinyddiaeth a threfniadau etholiadau llywodraeth leol. |
| 49 | Dylid ystyried amrywiaeth o opsiynau tymor byr ar gyfer cynyddu'r gallu yn y Cynulliad Cenedlaethol presennol, gan gynnwys mwy o |

¹² Nodyn Canllaw ar Ddatganoli 9, yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/devolution-guidance-notes>

| | |
|-----|--|
| | hyblygrwydd o ran nifer a maint y pwyllgorau, cynyddu nifer y staff ymchwil a defnyddio amser Aelodau'r Cynulliad yn well. |
| 50 | Dylid cynyddu maint y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaeth craffu yn well. Bydd angen ystyried y goblygiadau ymarferol, a'r goblygiadau i'r system etholiadol, yn fwy manwl. |
| 51a | Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Ysgrifennydd Gwladol gytuno ar ddull priodol o ymwneud â rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn hytrach na bod hynny wedi'i seilio ar y gofyniad deddfwriaethol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymddangos gerbron y Cynulliad Cenedlaethol; |
| 51b | Dylid dileu hawl yr Ysgrifennydd Gwladol, hawl sydd heb ei defnyddio, i gymryd rhan yng ngweithgaredd y Cynulliad Cenedlaethol; |
| 51c | Dylid cysoni pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i atal Biliau'r Cynulliad rhag camu ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol â'r pwerau sydd ar waith yn yr Alban. |
| 52 | Dylid adolygu a diwygio neu ddiddymu'r dyletswyddau a'r cyfyngiadau ar y Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 pan na fydd y rheini'n briodol rhagor. Dylid gwneud hyn ar sail y memorandwm manwl a gyflwynwyd i ni gan y Llywydd. Yn benodol, dylid rhagdybio o blaid mabwysiadu newidiadau sy'n cysoni trefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol â threfniadau Senedd yr Alban. |
| 53 | Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno newid ei enw i Senedd Cymru, dylid parchu hyn. |
| 54 | O ran perthynas y Cynulliad Cenedlaethol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rydym yn argymhell: a. dylid gwella'r cydweithio rhwng y seneddau i gryfhau cyd-ddealltwriaeth o waith y Cynulliad Cenedlaethol a dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan, yn enwedig o ran cydweithio rhwng pwyllgorau (gan gynnwys Gweinidogion y naill weinyddiaeth yn mynd i Bwyllgorau deddfwrfa'r llall); dylid gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth; dylid rhoi tocynnau mynediad i San Steffan i Aelodau'r Cynulliad; a dylid ffurfioli gweithdrefn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a'i rhoi ar waith mewn ffordd mor eang ag y rhoddir yr un weithdrefn ar waith yn yr Alban; b. dylid cyhoeddi datganiad manwl gyda phob Bil Seneddol a gynigir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig am ei oblygiadau ar gyfer Cymru; a dylid dilyn trefn debyg yng nghyswllt Biliau'r Cynulliad ac unrhyw oblygiadau sydd i'r Deyrnas Unedig yn ehangach. |
| 56 | Dylid cydnabod bod y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydliad parhaol, gyhyd â bod mwyafrif pobl Cymru'n ewyllysio hynny. |

2.2.2 Roedd consensws hefyd, yng ngoleuni argymhellion Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban, y dylid datganoli i'r Cynulliad faterion sy'n berthnasol i'w ddulliau gweithredu a'i drefniadaeth.

2.2.3 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai'r Cynulliad allu penderfynu sut mae'n gweithredu. Mae'r Cynulliad bellach tua un ar bymtheg oed, ac mae'n ddeddfwrfa gyflawn ers iddo gael pwerau llawn i greu cyfraith er 2011. Ymddiriedir iddo'r gwaith o basio cyfreithiau sy'n effeithio ar fywydau miliynau o bobl yng Nghymru, ac mae'n iawn iddo fod yn gyfrifol am benderfynu sut mae'n cyflawni ei waith ei hun ac yn rheoleiddio'i weithdrefnau ei hun.

Natur parhaol y Cynulliad

2.2.4 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid cydnabod y Cynulliad yn ffurfiol yn gorff parhaol a bod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn rhannau parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig. Dylid ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth.

Gweithrediad y Cynulliad a Llywodraeth Cymru

2.2.5 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r ffordd y bydd y Cynulliad yn cyflawni ei waith. Mae llawer o'r darpariaethau deddfwriaethol yn Neddf Llywodraeth Cymru yn cyfyngu gallu'r Cynulliad i benderfynu pethau drosto'i hun ac maent yn adlewyrchu cam datganoli cynharach. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r Cynulliad yn trefnu ei reolau sefydlog, cyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad ac maent hefyd yn rhoi mwy o ddewis i'r Cynulliad wrth iddo reoleiddio ei safonau ymddygiad ei hun. Gellir a dylid dileu'r cyfyngiadau hyn.

2.2.6. Dylai'r Cynulliad hefyd fod yn gyfrifol am benderfynu ar y prosesau a'r gweithdrefnau mewnol y bydd yn eu mabwysiadu i wneud ei waith, a materion sy'n berthnasol i Aelodau'r Cynulliad (gan gynnwys sut y caiff yr Aelodau hynny eu hethol). Dylai'r Cynulliad allu newid ei enw hefyd os yw'n dymuno gwneud hynny.

2.2.7 Yn yr un modd, rydym yn cytuno nad oes angen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymwneud yn uniongyrchol â thrafodion y Cynulliad ragor. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn bresennol yn y Cynulliad fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr hawl hefyd i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad (ond nid oes ganddo'r hawl i bleidleisio). Nid yw'r hawl hon wedi'i defnyddio erioed.

2.2.8 Cynhwyswyd y darpariaethau hyn yn Neddf 2006 pan oedd y Cynulliad yn dal i gael ei draed dano, ac nad oedd y gwahaniaeth rhwng swyddogaeth deddfu'r Cynulliad a swyddogaethau gweithredol Llywodraeth y Cynulliad

(Cenedlaethol) wedi'u rhoi ar waith eto. Erbyn hyn, mae'r Cynulliad wedi bwrw gwreiddiau ac mae llinellau ymgysylltu clir rhyngddo a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid oes angen y darpariaethau hyn bellach yn y cyd-destun hwnnw.

2.2.9 Byddwn hefyd yn trefnu i'r Llywydd, yn hytrach na Chlerc y Cynulliad, gyflwyno deddfwriaeth y Cynulliad ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Mae hyn yn adlewyrchu'r broses yn Senedd yr Alban. Fel rhan o'n gwaith i baratoi model cadw pwerau, bydd angen inni ystyried unrhyw addasiadau y gall fod eu hangen i'r pwerau sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn Bil Cynulliad a gyflwynir ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

Etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

2.2.10 Roedd Comisiwn Silk yn meddwl bod trefniadau etholiadol y Cynulliad y tu allan i'w gylch gorchwyl, ac ni wnaeth ddim argymhellion ynghylch etholiadau'r Cynulliad.

2.2.11 Roedd consensws cryf fodd bynnag, y dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am etholiadau'r Cynulliad, yn unol â'r argymhellion yng Nghytundeb Comisiwn Smith ar i Senedd yr Alban gael yr holl bwerau yng nghyswllt etholiadau i Senedd yr Alban. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt etholiadau'r Cynulliad. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ariannu etholiadau'r Cynulliad ac am ddatblygu'r ddeddfwriaeth sy'n pennu pwy a gaiff ei wahardd rhag cael ei ethol i'r Cynulliad.

2.2.12 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno bod dadl gref o blaid datganoli cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol llawn yng nghyswllt cynnal etholiadau'r Cynulliad i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru. Credwn fod datganoli etholiadau'r Cynulliad yn cydweddu'n dda â'r pecyn ehangach o ddiwygiadau i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu a ddisgrifiwyd eisoes yn y bennod hon.

2.2.13 Felly, rydym o blaid datganoli pwerau dros etholiadau'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar y system etholiadol; nifer yr etholaethau, eu ffiniau a'r gymhareb rhwng Aelodau rhanbarthol y Cynulliad ac Aelodau etholaethau'r Cynulliad; amseru etholiadau ac felly hefyd delerau'r etholiad; materion sy'n ymwneud â'r gofynion ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a chynnal yr etholiadau eu hunain; ac o dan ba amgylchiadau y ceir symud Aelod Cynulliad presennol o'i swydd.

2.2.14 Dylai'r Cynulliad fod â rheolaeth dros wariant ar ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol, gwariant rheoledig gan drydydd partïon a darllediadau gwleidyddol gan y pleidiau yng nghyswllt etholiadau'r Cynulliad. Serch hynny, ni ddylai'r Cynulliad allu penderfynu cynnal etholiadau'r Cynulliad ar yr un diwrnod ag y cynhelir etholiadau cyffredinol ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd Ewrop neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Byddai

rheoleiddio pleidiau gwleidyddol, gan gynnwys rhoddion i bleidiau gwleidyddol, yn cael ei gadw yn ôl.

2.2.15 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai'r Cynulliad benderfynu pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys gallu gostwng yr oedran pleidleisio i 16 os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae gan y Cynulliad y pŵer eisoes i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer refferendwm ar ddatganoli pwerau treth incwm¹³.

2.2.16 Dylai'r Comisiwn Etholiadol barhau i weithio ar sail y Deyrnas Unedig gyfan, a dylai fod gan y Cynulliad gymhwysedd dros swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol yng nghyswllt etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

2.2.17 Dylai Comisiwn Ffiniau Cymru barhau i weithredu yn un o gyrff cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Dylid datganoli pwerau sy'n gysylltiedig â ffiniau etholaethau'r Cynulliad i'r Cynulliad. Byddai angen trafod trefniadau pontio manwl â Chomisiwn y Cynulliad ac â Llywodraeth Cymru.

Uwch-fwyafrif

2.2.18 Dylai penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad am faterion o bwys cyfansoddiadol sylfaenol gael cefnogaeth consensws eang o blith y Cynulliad ei hun. Ni wnaeth Comisiwn Silk ddim argymhellion yn y cyswllt hwn, ond mae cynsail gref wedi'i sefydlu eisoes yn y Cynulliad sef bod angen mwyafrif o ddwy ran o dair ar faterion o bwys cyfansoddiadol¹⁴. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu argymhellion Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban.

2.2.19 Er mwyn cadw golwg ar ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n cynnig newidiadau i etholfraint etholiadau'r Cynulliad neu lywodraeth leol yng Nghymru, newidiadau i'r system etholiadol neu i'r gymhareb rhwng aelodau Cynulliad yr etholaethau a'r rhanbarthau, barn gadarn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y dylai deddfwriaeth o'r fath gael ei phasio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad. Credwn felly y byddai cefnogaeth eang yng Nghymru o blaid y camau diogelu hyn, ac yn y Cynulliad ei hun.

Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

2.2.20 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid datganoli trefniadau a gweinyddu etholiadau lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd ychydig o bwerau sydd gan y Cynulliad dros etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys gallu penderfynu faint o gynghorwyr sydd i'w hethol a ffiniau'r wardiau etholiadol. Mae bron pob agwedd arall ar lywodraeth leol yng Nghymru, serch hynny, wedi'u datganoli.

¹³ Adran 13 o Ddeddf Cymru 2014.

¹⁴ O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ym mhleidlais y Cynulliad a sbardunodd y refferendwm yn 2011 ar bwerau'r Cynulliad, roedd gofyn cael mwyafrif o ddwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid. Mae gofyn cael yr un mwyafrif i sbarduno refferendwm ar dreth incwm o dan Ddeddf Cymru 2014.

2.2.21 Byddai pwerau'r Cynulliad yn cynnwys y gallu i benderfynu ynghylch etholfraint etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Etholiadau eraill

2.2.22 Bydd pob agwedd ar etholiadau i Dŷ'r Cyffredin a Senedd Ewrop ac ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn parhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig.

2.3 Cysylltiadau rhwng y Llywodraethau

2.3.1 Roedd Comisiwn Silk yn cynnwys ystod eang o argymhellion am wella cysylltiadau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Roedd consensws bod angen peirianwaith rhynglywodraethol cadarn a thrwyadl yn sail i setliad datganoli Cymru.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 3 | Dylai'r ddwy Lywodraeth restru a dosbarthu canllawiau arferion da sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng y llywodraethau a meysydd i'w datblygu gan ddefnyddio'r enghreifftiau a gyflwynwyd inni. Dylent hefyd adolygu'n rheolaidd y nodiadau cyfarwyddyd sydd ar gael eisoes a sut y glynir atynt. |
| 4 | Dylid darparu cod ymarfer statudol ynglŷn â'r berthynas rhwng y llywodraethau mewn Deddf Llywodraeth Cymru newydd. |
| 5 | Byddai'n gymorth petai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio ar y cyd y berthynas rhwng y llywodraethau. Gellid cyflwyno adroddiad am yr archwiliad hwn i'r Pwyllgor Materion Cymreig ac i'r pwyllgor cyfatebol yn y Cynulliad Cenedlaethol a allai wedyn, o bryd i'w gilydd, gyd-adolygu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu rhwng y llywodraethau. |
| 6 | Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sefydlu Pwyllgor Rhynglywodraethol Cymru, gydag is-bwyllgorau ar wahân yn gefn iddo petai angen. Dylai oruchwylio sut y bydd setliad Cymru'n gweithio drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. ceisio symleiddio'r model datganoli presennol, a bwrw ymlaen â'r broses o symud tuag at fodel cadw pwerau yn ôl; b. ystyried cynigion manwl a godir yn y dyfodol i newid y cyfrifoldebau wydd wedi'u datganoli; c. datrys anghytundebau heb orfod rhoi'r broses lawn o ddatrys anghydfod ar waith; d. monitro datblygiadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru; a |

| | |
|----|---|
| | e. datrys materion trawsffiniol. |
| 7 | Dylai fod mecanwaith cyfryngu i ddatrys anghydfodau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol Biliau sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn ystyried cyfeirio'r mater at y Goruchaf Lys. |
| 8 | I wella canlyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, dylai'r ddwy Lywodraeth: a. gydweithredu â Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon I gyhoeddi data cymharol mwy cynhwysfawr a chyson ac i ddadansoddi canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus ac economaidd drwy wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Dylid seilio hyn ar ffynonellau data sydd ar gael eisoes cyn belled ag sy'n bosibl; ac b. ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda o ran polisiau, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd, gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus a'r economi, yn enwedig drwy adeiladu ar waith Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. |
| 10 | A chofio mai ffin weinyddol yn unig yw hi ac nid ffin economaidd, ac o ystyried bod gan y ddwy lywodraeth yr un uchelgais i sicrhau twf economaidd, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ystyried polisiau'r naill a'r llall mewn ffordd gydlynol wrth ddatblygu eu strategaethau economaidd i Gymru Byddai hyn yn cynnwys ymagwedd sydd wedi'i chydlynu'n well at fuddsoddi mewn busnesau a datblygu economaidd. |
| 45 | O ran Addysg Uwch ac ymchwil, dylid cael pwyllgor rhynglywodraethol ffurfiol i sicrhau agwedd gydlynol i bolisi ac i asesu effaith y penderfyniadau a wneir ar lefel y Deyrnas Unedig ar Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. |

2.3.2 Roedd Comisiwn Silk yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i'r ddwy Lywodraeth yng Nghymru gydweithio'n fwy effeithiol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu hefyd mai cydweithio da rhwng yr holl Weinyddiaethau Datganoledig¹⁵ a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd er lles gorau nid dim ond pobl Cymru ond pobl y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Felly, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig yn cydweithio i ddatblygu newidiadau i'r gwaith a wneir rhwng y llywodraethau.

2.3.3 Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau. Cyfarfu'r Cydbwyllgor Gweinidogion ar 15 Rhagfyr 2014 a chytunodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, Prif Weinidogion yr Alban a Chymru a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yw'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Weinidog Gogledd Iwerddon i gomisiynu gwaith ar Femorandwm Dealltwriaeth diwygiedig.¹⁶

2.3.4 Mae hyn yn waith cymhleth ac mae'n bwysig ein bod yn ei wneud yn iawn. Bydd newidiadau i strwythur Cydbwyllgor y Gweinidogion, a threfniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yn ogystal â goruchwyliaeth Seneddol, yn sail i waith y llywodraethau drwy'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

2.3.5 Bydd yr argymhellion gan Gomisiwn Silk i wella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithio'n cael eu hystyried (heb ragfarn) fel rhan o'r broses hon.

2.3.6 Mae i'r argymhellion i wella'r ffordd y gweithredir y Concordat presennol ar Faterion Polisi'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â sylwadau'r Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd gysylltiad hanfodol â'r gwaith hwn. Bwrir ymlaen â thrafodaethau ynghylch hyn fel rhan o'r gwaith ehangach ar ddiwygio cysylltiadau rhynglywodraethol a bydd newidiadau'n digwydd ochr yn ochr â hyn. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn arwain at lywodraethu cryfach a mwy cydweithredol yn y Deyrnas Unedig er budd pob dinesydd.

Cydweithredu rhwng y seneddau

2.3.7 Argymhelliad Comisiwn Silk oedd y dylid gwella'r cydweithio rhwng y Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig er mwyn annog cyd-ddealltwriaeth y naill ddeddfwrfa o weithrediad y llall.

2.3.8 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig¹⁷ yn croesawu cydweithio rhwng Senedd y Deyrnas Unedig a'r Deddfwrfeydd Datganoledig, gan gynnwys y Cynulliad. Serch hynny, materion yw'r rhain y bydd y sefydliadau seneddol eu hunain gan mwyaf yn eu harwain. Bydd Llefaryr a Llywyddion y pedair deddfwrfa'n cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn i drafod materion sydd o ddiddordeb iddynt oll. Mae gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin y pŵer eisoes i gydgyfarfod ag un o Bwyllgorau'r Cynulliad, ac mae Pwyllgorau Dethol eraill y senedd wedi ymweld â Chymru a chlywed tystiolaeth¹⁸.

Cydsyniad Deddfwriaethol

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 54 | Dylid ffurfioli Gweithdrefn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a'i rhoi ar waith mewn ffordd mor eang ag y rhoddir yr un weithdrefn ar waith yn yr Alban. |

¹⁶<https://www.gov.uk/government/news/joint-ministerial-committee-communique-december-2014>

¹⁷ Cyfarfu Ysgrifennydd Gwladol Cymru â Llywydd y Cynulliad, a bu'n gohebu â Chlerc Dros Dro Tŷ'r Cyffredin, i gadarnhau natur y cydweithio rhwng y seneddau.

¹⁸Yr achlysur diweddaraf oedd ymweliad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol â'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 2014 fel rhan o'i ymchwiliad i *Ddyfodol Datganoli ar ôl y Refferendwm*.

2.3.9 Yn ôl y confensiwn, ni fydd Senedd y Deyrnas Unedig fel rheol yn deddfu gyda golwg ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru heb gael cydsyniad y Cynulliad. Bydd y Cynulliad yn cydsynio drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ac roedd Comisiwn Silk yn galw am ffurfioli'r weithdrefn hon.

2.3.10 Rydym yn cytuno y dylid ffurfioli'r confensiwn, a rhoi sail statudol iddo, mewn ffordd sy'n debyg yn ei hanfod i'r hyn y bwriada'r Llywodraeth ei wneud gyda golwg ar Gonfensiwn Sewel yn yr Alban.

2.4 Adnoddau Naturiol

2.4.1 Roedd consensws o blaid cytuno â'r argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk:

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|---|
| 15 | <p>Er mwyn annog datblygu prosiectau ynni yng Nghymru, rydym yn argymhell</p> <ul style="list-style-type: none"> a. dylai'r cyfrifoldeb o ganiatáu cynlluniau datblygu ynni ar gyfer prosiectau hyd at 350MW ar y tir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru; b. dylai fod yn ddyletswydd statudol ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymgynghori â Llywodraeth Cymru i ystyried blaenoriaethau cynllunio Cymru wrth ganiatáu prosiectau dros 350MW; c. dylai pob caniatâd datblygu cysylltiedig fod yn gyson â chyfrifoldeb dros y prif brosiect; d. dylid datganoli'r cyfrifoldeb am roi trwyddedau morol ar gyfer dyfroedd môr mawr Cymru; ac e. dylai Cymru fod yn gydradd â'r Alban a Gogledd Iwerddon yng nghyswllt y Contractau ar Gyfer Gwahaniaeth arfaethedig a fydd yn disodli'r Tystysgrifau Dyletswydd Ynni Adnewyddadwy o 2017 ymlaen fel rhan o Ddiwygiad y Farchnad Drydan ar raddfa ehangach. |
| 16 | <p>O ran dŵr, rydym yn argymhell:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. dylid datganoli pwerau dros garthffosiaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; b. dylai'r terfyn cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr fod yn gyson â'r ffin genedlaethol Rydym yn cydnabod bod angen ystyried rhagor beth fydd goblygiadau ymarferol y cysoni hwn, gyda golwg benodol ar fuddiannau defnyddwyr, a chan gynnwys y rheolydd, cynrychiolwyr defnyddwyr, cwmnïau dŵr a'r ddwy Lywodraeth; |

| | |
|----|---|
| | <p>c. dylid sefydlu protocol ffurfiol rhynglywodraethol ar gyfer materion trawsffiniol; a</p> <p>d. dylid dileu pwerau deddfwriaethol a gweithredol presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd yng nghyswllt dŵr ac, yn lle hynny, sefydlu mecanweithiau o dan y protocol rhynglywodraethol.</p> |
| 18 | Dylid ymestyn cyfrifoldebau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru dros gadwraeth forol a thros drwyddedu yn ardal glannau Cymru i ddyfroedd môr mawr Cymru. |
| 40 | Dylai Gweinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau adeiladu ar gyfer pob adeilad yng Nghymru. |

Ynni

2.4.2 Argymhelliad Comisiwn Silk oedd y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am ganiatáu prosiectau cynhyrchu ynni o dan 350MW i Gymru. Byddai hyn yn disodli'r drefn ddarniog bresennol ar gyfer caniatáu prosiectau ynni yng Nghymru, lle mae'r trothwyon ar dir ac ar fôr yn wahanol i'w gilydd, gan roi un trothwy cyffredin ar waith ar gyfer pob datblygiad ynni. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu hefyd y dylid datganoli'r cyfrifoldeb dros ganiatáu pob gorsaf cynhyrchu trydan o dan 350MW.

2.4.3 Yn ogystal â hyn, roedd y Comisiwn yn argymhell y dylai'r corff sy'n gyfrifol am ganiatáu prosiect ynni hefyd fod yn gyfrifol am unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig a ganiateid. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ynghylch pob caniatâd cysylltiedig yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y byddai hyn yn symleiddio'r system bresennol eto. Byddai pob caniatâd cysylltiedig ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan o dan 350MW yn dal i gael eu penderfynu yng Nghymru.

2.4.4 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu y byddai gosod un trothwy caniatáu cyffredin, sef 350MW, yn rhoi arfau newydd pwysig i Lywodraeth Cymru i'w helpu i wireddu ei pholisïau ynni a chroesi'r bont i economi carbon isel. Byddai'n rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wireddu targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru'n fwy effeithiol oherwydd y byddai'r penderfyniad ynghylch y rhan fwyaf o gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gynigid yng Nghymru yn cael ei wneud yng Nghymru.

2.4.5 Byddai ceisiadau am brosiectau cynhyrchu trydan 360MW ac uwch yn dal i gael eu penderfynu ar lefel y Deyrnas Unedig. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn dal i benderfynu ynglŷn â chynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy mwy o faint yng Nghymru.

2.4.6 Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y Deyrnas Unedig gyflenwadau digonol o ynni ac am y meysydd polisi penodol sy'n helpu i sicrhau hyn - gan gynnwys cynhyrchu, cyflenwi, trosglwyddo a dosbarthu trydan. Mae'r trothwy 350MW yn ei gwneud yn glir pa brosiectau a fyddai'n gwneud cyfraniad strategol at anghenion ynni Prydain gan sicrhau

bod penderfyniadau ynglŷn â phrosiectau cynhyrchu mawr yng Nghymru yn cael eu gwneud o safbwynt strategol ar raddfa'r Deyrnas Unedig gyfan.

2.4.7 Ar gyfer prosiectau mawr yng Nghymru y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal yn gyfrifol amdanynt, dylai fod yn rhwymedigaeth statudol iddi ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac ystyried polisiau cynllunio yng Nghymru, wrth ganiatáu'r prosiect.

2.4.8 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn cytuno y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am ganiatáu trwyddedau morol yn nyfroedd môr mawr Cymru. Mae Gweinidogion eisoes yn penderfynu ynglŷn â chaniatáu trwyddedu yn nyfroedd y glannau¹⁹ o gwmpas Cymru.

2.4.9 Roedd Comisiwn Silk yn argymhell y dylai Cymru fod yn gydradd â'r Alban a Gogledd Iwerddon yng nghyswllt y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth.

Blwch 2: Contractau ar gyfer Gwahaniaeth

Bydd Diwygiadau'r Llywodraeth i'r Farchnad Drydan yn darparu'r ynni gwyrddach a'r cyflenwadau dibynadwy sydd eu hangen ar y wlad a hynny am y gost isaf posibl. Bydd hyn yn diwygio sector trydan y Deyrnas Unedig a'i droi'n un lle y bydd cynhyrchu carbon-isel yn gallu cystadlu â chynhyrchu traddodiadol drwy ddefnyddio tanwydd ffosil.

Un agwedd bwysig ar Ddiwygio'r Farchnad Drydan yw'r troi at y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, y mecanwaith cymorth newydd ar gyfer cynhyrchu trydan carbon isel, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, niwclear, a Chipio a Storio Carbon. Agorwyd y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth i ymgeiswyr ganol 2014. O ganol 2014 tan 31 Mawrth 2017 bydd y Ddyletswydd Ynni Adnewyddadwy - y mecanwaith cymorth presennol a'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth ill dau ar agor ar gyfer ceisiadau i greu capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd. Bydd y Ddyletswydd Ynni Adnewyddadwy yn cau i gynlluniau sy'n cynnig capasiti cynhyrchu newydd ym mis Mawrth 2017.

2.4.10 Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am bolisi'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth ym Mhrydain Fawr. Nid yw'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth wedi'u datganoli nac i'r Alban nac i Gymru. Felly, mae'r ddwy genedl yn cael eu trin yn gydradd. Serch hynny, mae polisi'r Contractau ar gyfer Gwahaniaeth wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Mae Cymru'n gydradd â thir mawr yr Alban hefyd gyda golwg ar bris atodol ar gyfer cynlluniau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth.

2.4.11 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau adeiladu ar gyfer pob adeilad yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion y pŵer i wneud rheoliadau adeiladu yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r adeiladau yng Nghymru, ond nid oes ganddynt

¹⁹ Mae dyfroedd glannau Cymru yn cynnwys y môr o gwmpas arfordir Cymru cyn belled allan â ffin y môr tiriogaethol (12 morfilltir).

bwerau i wneud rheoliadau adeiladu ar gyfer seilwaith ynni (a elwir yn "adeiladau ynni eithriedig"²⁰).

Dŵr

2.4.12 Dywedodd Comisiwn Silk fod materion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth, yn enwedig o ran y terfyn datganoli a materion trawsffiniol. Nid yw ardaloedd penodi ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth yn dilyn ffin Cymru a Lloegr. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu dalgylchoedd afonydd a'r pibellau dŵr a'r carthffosydd sy'n eiddo i'r ymgymerydd sy'n berthnasol i'r dalgylchoedd hynny.

2.4.13 Gall y Cynulliad ddeddfu ynghylch rhai agweddau ar ddŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Mae ganddo gymhwysedd dros benodi a rheoleiddio ymgymerydd dŵr (cwmnïau dŵr) yng Nghymru, ond nid dros y rheini y mae eu hardal yn rhannol yng Nghymru ond yn bennaf yn Lloegr. Caiff hefyd ddeddfu i reoleiddio cyflenwyr dŵr trwyddedig sy'n gweithio yn ardaloedd yr ymgymerydd hynny ar yr un sail, ond nid oes ganddi gymhwysedd dros drwyddedu unrhyw rai o'r trwyddedeion. Ar y llaw arall, mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol wedi'u datganoli, ac mae Gweinidogion yn eu rhoi ar waith ar yr un sail "yn llwyr neu'n bennaf".

2.4.14 Casgliad Comisiwn Silk oedd bod y terfyn datganoli presennol yn creu anghysonderau: mae gan y Senedd awdurdod deddfwriaethol dros ymgymerydd dŵr mewn rhai rhannau o Gymru²¹ ond nid mewn mannau eraill, ac mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol dros rai ardaloedd yn Lloegr sy'n cael eu gwasanaethu gan ymgymerydd dŵr sydd yng Nghymru yn bennaf²². Nid oes gan gwsmeriaid yr ymgymerydd hyn yn Lloegr lais i'w cynrychioli yn y Cynulliad nac yn Llywodraeth Cymru.

2.4.15 Argymhelliad Comisiwn Silk oedd y dylid cysoni terfyn y cymhwysedd deddfwriaethol dros ddŵr â'r ffin genedlaethol. O safbwynt ymarferol, byddai hyn yn golygu dileu pwerau'r Senedd gyda golwg ar ardal Severn Trent Water yng Nghymru. Roedd y Comisiwn yn cydnabod y byddai hyn yn gymhleth a nododd fod angen gwneud rhagor o waith ar y goblygiadau ymarferol.

2.4.16 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn glir y dylai unrhyw newid i'r terfyn datganoli ar gyfer dŵr gadw mewn golwg fuddiannau defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth bob ochr i'r ffin. Rydym felly wedi penderfynu sefydlu Rhaglen Adolygu ar y cyd rhwng y Llywodraethau i archwilio goblygiadau cysoni'r cymhwysedd deddfwriaethol dros ddŵr â'r ffin genedlaethol, gyda golwg ar roi'r argymhelliad ar waith os yw hynny'n rhywbeth y byddai'n rhesymol bosibl ei gyflawni.

2.4.17 Bydd y Rhaglen yn cael ei chadeirio a'i rheoli ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a fydd yn ceisio cael y

²⁰ Yn ôl diffiniad Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2).

²¹ Dalgylch Severn Trent Water yng nghanolbarth Cymru.

²² Yr ardaloedd hynny yn Lloegr sy'n cael eu gwasanaethu gan Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

diwydiannau dŵr a charthffosiaeth a'u rheoleiddwyr i gymryd rhan (gan gynnwys OFWAT, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Prif Arolygydd Dŵr Yfed), defnyddwyr ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill. Cylch gwaith y Rhaglen fydd ymchwilio i effeithiau tebygol ar ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn effeithlon, ar ddefnyddwyr ac ar yr ymgwymerwyr dŵr eu hunain, pe rhoddid yr argymhelliad ar waith.

2.4.18 Ein nod fydd sefydlu'r Rhaglen cyn gynted â phosibl, a threfnwyd cyfarfod ym mis Mawrth i gytuno ar y cylch gorchwyl. Wedyn, bydd angen gwneud rhagor o gynllunio manwl i bennu'r amserlen er mwyn paratoi adroddiad am y ganfyddiadau.

2.4.19 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno â'r consensws o blaid datganoli pwerau dros garthffosiaeth. Mae hyn ar sail y terfyn datganoli "yn llwyr neu'n bennaf" presennol a dibynnu ar ganlyniad gwaith y Rhaglen.

2.4.20 Dylid ystyried argymhellion Comisiwn Silk ynghylch protocol ffurfiol rhwng y llywodraethau ar gyfer dŵr yng nghyswllt materion trawsffiniol, ac ynghylch dileu pwerau ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol a sefydlu yn eu lle fecanweithiau o dan y protocol, wrth fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r Rhaglen.

Cadwraeth Forol

2.4.21 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid estyn cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru dros gadwraeth forol a thros drwyddedu yn ardal glannau Cymru i ddyfroedd môr mawr Cymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio morol ar gyfer ardal y glannau a dyfroedd môr mawr Cymru a byddai'r newid hwn yn sicrhau eu bod yn gyfrifol am gynllunio morol, cadwraeth forol a physgodfeydd yn yr un ardal forol.

2.5 Trafnidiaeth

2.5.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk. Nid oedd consensws o blaid bwrw ymlaen â'r argymhellion i ddatganoli ariannu Network Rail yng nghyswllt rhwydwaith Cymru (argymhelliad 12c) nac i ddatganoli terfynau yfed a gyrru (agwedd arall ar argymhelliad 12d).

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|---|
| 12 | Dylid datganoli'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. datblygu porthladdoedd, gan gynnwys gorchmynion harbwr a goruchwylio porthladdoedd yr Ymddiriedolaethau; b. masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau d. terfynau cyflymder; e. rheoleiddio bysiau, gan gynnwys swyddogaethau perthnasol y |

| | |
|----|---|
| | Comisiynydd Traffig; a f. rheoleiddio taccsis. |
| 13 | Er y dylai'r cyfrifoldeb am fasnachfreintiau rheilffyrdd trawsffiniol rhwng dinasoedd (First Great Western, CrossCountry a Virgin Trains) barhau'n rhai sydd heb eu datganoli, dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o ran yn y broses ymgynghori ar gyfer penodi gweithredwr masnachfaint newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn. |
| 14 | Dylid sicrhau cydlynu agos rhwng y ddwy Lywodraeth er mwyn sicrhau bod y ffyrdd sy'n croesi'r ffin yn ffyrdd o safon. Dyma rai o'r materion y dylid eu hystyried: a. gwelliannau i'r rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar hyd coridorau'r M4 a'r A55; b. dyfodol tollau Pontydd Hafren; a'r c. ffyrdd sy'n croesi'r ffin, gan gynnwys proses ffurfiol ar gyfer penderfynu ynghylch gwelliannau arfaethedig i ffyrdd bob ochr i'r ffin sy'n rhoi sylw llawn i bwysigrwydd strategol y ffordd i Gymru. |

Porthladdoedd

2.5.2 O ran datblygu porthladdoedd, mae'r Llywodraeth yn cytuno bod datganoli polisi porthladdoedd yn cydweddu'n dda â chyfrifoldebau presennol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru mewn meysydd megis datblygu economaidd, trafndiaeth a thwristiaeth. Nid yw polisi porthladdoedd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, ac eithrio ar gyfer harbyrau bach a ddefnyddir yn bennaf gan y diwydiant pysgota ac ar gyfer hamdden.

2.5.3 Byddai datganoli polisi porthladdoedd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu porthladdoedd Cymru fel rhan o'i strategaethau ehangach ar gyfer twf economaidd a sicrhau bod datblygu porthladdoedd yn cael ei gydlynu'n llwyr â chynlluniau i wella seilwaith trafndiaeth Cymru.

2.5.4 Cyrff statudol annibynnol yw porthladdoedd ymddiriedolaeth²³, a phob un cael ei lywodraethu gan ei statudau unigryw ei hun ac yn cael ei reoli gan gorff annibynnol lleol. Nid oes ganddynt ddim cyfranddalwyr na pherchnogion a bydd unrhyw warged yn cael ei ailfuddsoddi ym mhob porthladd er budd ei randdeiliaid. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth sy'n penodi'r cadeiryddion, ac mewn ambell achos, aelodau anweithredol, i ffyrddau 5 porthladd ymddiriedolaeth yr ystyrir eu bod o bwys cenedlaethol, gan gynnwys Aberdaugleddau yng Nghymru.

²³Y porthladdoedd Ymddiriedolaeth yng Nghymru yw Caernarfon, Aberdaugleddau, Castell-nedd, Casnewydd (Brynbuga) a Saundersfoot. Mae gweddill porthladdoedd Cymru yn cael eu cynnal yn breifat gan Associated British Ports a Stena Line neu ym mherchnogaeth awdurdodau lleol.

2.5.5 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn astudio'r porthladdoedd ymddiriedolaeth gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw model y porthladdoedd ymddiriedolaeth presennol, a bydd yn cynnig opsiynau ar gyfer newid os bydd angen. Bwrid ymlaen i ddatganoli porthladdoedd ymddiriedolaeth yng Nghymru yng ngoleuni argymhellion yr astudiaeth.

Rheilffyrdd

2.5.6 Argymhelliad Comisiwn Silk oedd y dylai Gweinidogion Cymru ddod yn awdurdod masnachfreinio gyda golwg ar fasnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Mae'r Llywodraeth eisoes yn rhoi'r argymhellion hwn ar waith.

2.5.7 Cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ar 21 Tachwedd 2014 fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cynlluniau Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd a Phrif Reilffordd y Great Western yn gallu mynd rhagddynt. Hefyd, yn ystod y cyhoeddiad hwn, cadarnhawyd y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datganoli masnachfaint Cymru a'r Gororau.

2.5.8 Bydd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb llwyr am baratoi manylebau a am gaffael masnachfaint rheilffyrdd i ddarparu gwasanaethau ar ôl i fasnachfaint bresennol Cymru a'r Gororau ddod i ben yn 2018. Mae'r Adran Drafnidiaeth eisoes yn cydweithio'n glos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n llwyr gyfrifol am osod a rheoli'r fasnachfaint newydd (Gweler Blwch 3).

2.5.9 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru ynghylch manyleb masnachfreintiau o ddinas i ddinas sy'n cyrraedd ac yn gadael Cymru. Gelwir gwasanaethau trenau sy'n dechrau, yn gorffen neu'n aros mewn gorsafodded yn yng Nghymru, yn 'Wasanaethau i Gymru' ac mae'n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn eu cylch. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn barhaus, gan rannu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl.

2.5.10 Bydd y Llywodraeth yn adolygu sut mae'n ymgynghori ynghylch y gwasanaethau hyn er mwyn penderfynu a oes angen cryfhau'r trefniadau ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Blwch 3: Datganoli Masnachfaint Cymru a'r Gororau

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datganoli swyddogaethau masnachfreinio i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i arwain gwaith caffael a rheoli masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau.

Felly, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu'n derfynol ynghylch y fasnachfaint nesaf. Byddwn yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fanylion y fasnachfaint ddatganoledig, gan gynnwys sut y caffaelir ac y

rheolir llwybrau trawsffiniol. Mae llwybrau trawsffiniol yn hanfodol i deithwyr bob ochr i'r ffin ac mae sicrhau bod camau diogelu digonol ar waith i warchod pawb sy'n defnyddio'r rheilffyrdd trawsffiniol yn eithriadol o bwysig. Er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth sicrhau atebolrwydd priodol, mae'n debygol y bydd gwasanaethau sy'n gwasanaethu marchnadoedd Lloegr yn bennaf yn cael eu cynnwys mewn masnachfreintiau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn awdurdod masnachfreinio drostynt.

Trafnidiaeth y ffyrdd

2.5.11 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid datganoli terfynau cyflymder i Gymru, ond byddai'r pwerau presennol i ddynodi pa gerbydau a fyddai'n cael torri'r terfynau cyflymder at ddibenion penodol (megis cerbydau argyfwng sy'n mynd i ddigwyddiadau) yn cael eu cadw o hyd.

2.5.12 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno hefyd y dylid datganoli'r pŵer dros reoleiddio bysiau (gyda golwg ar gofrestru gwasanaethau bysiau) a thacsis yng Nghymru. Gellir ystyried y ddau'n wasanaethau lleol, a byddai galluogi'r Cynulliad i benderfynu ynghylch y fframwaith rheoleiddio yng Nghymru yn ategu'r pwerau dros bolisiau trafnidiaeth sydd wedi'u datganoli eisoes.

2.5.13 Nid yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau lleol wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, ond mae agweddau eraill ar bolisi bysiau wedi'u datganoli, gan gynnwys rheoleiddio gostyngiadau ar brisiau tocynnau a'r gallu i roi cymorthdaliadau.

2.5.14 Comisiynydd Traffig Cymru²⁴ sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am oruchwylio cofrestru gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Byddai datganoli cofrestru gwasanaethau bysiau'n gadael i'r Cynulliad ddeddfu i benderfynu sut y dylid cyflawni'r swyddogaeth hon yn y dyfodol.

2.5.15 Byddai'r Comisiynydd yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau cadw sy'n weddill yng nghyswllt Cymru (gan gynnwys trwyddedu gweithredwyr bysiau). Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn ymrwymo i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch penodi i swydd Comisiynydd Traffig Cymru yn y dyfodol.

2.5.16 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn cytuno â'r consensws y dylid datganoli cofrestru tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gadarnhau is-ddeddfau sy'n berthnasol i dacsis a cherbydau hurio preifat a wneir gan awdurdodau lleol Cymru. Bydd yr awdurdodau hynny'n gosod eu polisiau a'u safonau eu hunain dros drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, a'r rheini'n cael eu llywio gan y canllawiau arferion gorau a gyhoeddir gan yr Adran Drafnidiaeth.

²⁴ Mae Comisiynydd Traffig Cymru hefyd yn Gomisiynydd Traffig Gorllewin Canoldir Lloegr.

2.5.17 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid cydlynu pethau'n glos er mwyn sicrhau llwybrau trawsffiniol da. Yn ogystal â dwy ffordd y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN-T) sydd yng Nghymru (yr M4 a'r A55), mae pedair llwybr ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr²⁵.

2.5.18 Mae'r Asiantaeth Priffyrdd wedi cwblhau cyfres o strategaethau llwybrau i lywio'r Cynllun Buddsoddi sydd yn Strategaeth Buddsoddi mewn Ffyrdd gyntaf y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Wrth ddatblygu'r strategaethau llwybrau, gofynnodd yr Asiantaeth Priffyrdd am sylwadau Llywodraeth Cymru ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth ac ystyriwyd ffactorau eraill megis llwybrau at borthladdoedd strategol a'r prif safleoedd datblygu.

2.5.19 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithio'n glos â Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd i wneud cais am arian gan raglen TEN-T. Mae ffyrdd trawsffiniol yn destun trafodaethau rheolaidd hefyd rhwng gweinidogion trafndiaeth yn y ddwy Lywodraeth.

2.5.20 Mae'r Pontydd dros afon Hafren yn cael eu defnyddio gan fwy na 26 miliwn o gerbydau bob blwyddyn ac maent yn briffyrdd trafndiaeth hollbwysig i Gymru. Pennwyd lefel y tollau yn Neddf Pontydd Hafren 1992, sy'n darparu ar gyfer parhau i godi tollau nes bod y consesiynydd wedi adennill ei gostau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer adennill costau ychwanegol, gan gynnwys dyledion a chostau cynnal a chadw'r Llywodraeth drwy'r tollau.

2.5.21 Ar sail y rhagolygon presennol, bydd Pontydd Hafren yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus yn 2018, ac fe ymrwymodd y Llywodraeth yn ei Strategaeth Buddsoddi mewn Ffyrdd i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i benderfynu ynghylch dyfodol tymor hir y Pontydd. Dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol sicrhau bod y pontydd yn cael eu cynnal a'u cadw yn y tymor hir a'u chefnogi'r economïau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr gystal byth ag y gellir.

2.6 Iechyd

2.6.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk. O ran argymhelliad 37b gyda golwg ar brotocolau iechyd unigol, caiff cyrff y GIG ar hyd y ffin eisoes gytuno ar drefniadau ymhlith ei gilydd lle byddant yn dymuno gwneud hynny.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|---|
| 36 | Ni ddylid newid y setliad datganoli ym maes iechyd. |
| 37 | Dylid sicrhau bod cleifion ar ddwy ochr y ffin yn cael mynediad teg i |

²⁵ Y ffyrdd hyn yw'r A40, yr A458, yr A483 a'r A5.

| | |
|--|---|
| | <p>wasanaethau a bod ymagwedd strategol at gyd-ddarparu gwasanaethau iechyd. Dylid gwneud hyn drwy:</p> <p>a. adolygiad rheolaidd a mynych gan Bwyllgor Rhynglywodraethol Cymru o brotocol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar ofal iechyd trawsffiniol;</p> <p>b. datblygu protocolau unigol rhwng pob Bwrdd Iechyd Lleol ar y ffin yng Nghymru ac Ymddiriedolaethau cyffiniol y GIG yn Lloegr; ac</p> <p>c. ymagwedd gydweithredol a chydlynol at gyd-ddarparu gwasanaethau iechyd, yn enwedig cyfleusterau arbenigol iawn, ac arbedion effeithlonrwydd ar y cyd.</p> |
|--|---|

2.6.2 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau mynediad teg i wasanaethau gofal iechyd bob ochr i'r ffin. I raddau helaeth, bydd Cymru a Lloegr yn diwallu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain, ond, o bryd i'w gilydd, bydd angen i'w trigolion gael gwasanaethau yn y wlad arall ac mae angen deall yn glir ar ba delerau y bydd hynny'n digwydd.

2.6.3 Mae'r protocol ar gyfer gofal iechyd trawsffiniol yn ymwneud, gan mwyaf, â phwnc penodol pa gorff a ddylai gomisiynu gofal eilaidd i drigolion un wlad sydd wedi'u cofrestru â phractis meddyg teulu yn y wlad arall²⁶. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi ei bod yn poeni nad yw'r trefniadau o dan y protocol ar hyn o bryd yn parchu'r ffeithiau bod cyrff GIG Lloegr yn gyfrifol am gomisiynu gofal eilaidd i drigolion Lloegr a bod gan drigolion Lloegr hawliau penodol o dan Gyfansoddiad y GIG yng nghyswllt gofal eilaidd (megis yr hawl i ddewis darparwr).

2.6.4 Mae'r Adran Iechyd, GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru yn adolygu'r protocol i sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn diwallu anghenion pobl a gwasanaethau iechyd bob ochr i'r ffin. Ni fydd y trefniadau hyn yn y dyfodol o anghenraid ar ffurf protocol, ond mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn glir eu bod yn rhaid iddynt sicrhau parch i hawliau trigolion Lloegr.

2.6.5 Yn fwy cyffredinol, roedd Comisiwn Silk yn nodi pa mor bwysig oedd cyd-ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ffordd gydweithredol a chydlynol, ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i barhau â'r cydweithredu hwnnw sy'n sicrhau bod y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr yn cydweithio ar gynlluniau cenedlaethol penodol neu'n fwy lleol.

2.6.6 Mae'n bwysig bod cyrff bob ochr i'r ffin yn ymrwymo i'r ymagwedd hon. Gall newidiadau i wasanaethau ar y naill ochr i'r ffin, boed hynny oherwydd tarfu dros dro ar wasanaethau²⁷ neu yn sgil ffurfweddu'r gwasanaeth yn y tymor hwy, gael dylanwad pwysig ar ochr arall y ffin. Mae'r ddau'n bethau y mae angen i gyrff lleol roi sylw iddynt ar y cyd.

²⁶Mae hyn yn effeithio ar oddeutu 15,000 o drigolion Cymru ac 20,000 o drigolion Lloegr.

²⁷Er enghraifft, ysbyty nad yw'n derbyn cleifion Damweiniau ac Achosion Brys.

2.6.7 Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn dilyn ei ymchwiliad i ofal iechyd trawsffiniol.

2.7 Cyflogaeth a Sgiliau

2.7.1 Roedd consensws o blaid derbyn argymhellion 9 a 38 Comisiwn Silk. Wrth gyrraedd consensws ynghylch Argymhelliad 9, sylweddolwyd bod y Gweithgor Mynediad i Gyflogaeth rhynglywodraethol eisoes yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 9 | Dylai ymagwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru at bolisiau cyflogaeth a hyfforddiant fod yn fwy eglur ac wedi'i chydlynu'n well. Dylai hyn gynnwys ystyried rôl Llywodraeth Cymru yn gweinyddu rhaglenni cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau. |
| 38 | Dylai'r system nawdd cymdeithasol yng Nghymru barhau fel y mae ar hyn o bryd, heb ei datganoli. |

2.7.2 Mae cyflogaeth a hyfforddiant yn faes hollbwysig lle mae angen rheoli'n effeithiol y terfyn rhwng gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli.

2.7.3 Nid yw materion sy'n ymwneud â chyflogaeth yng Nghymru wedi'u datganoli, a chyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r rhain. Mae helpu pobl i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith yn rhan bwysig o'n cynllun economaidd tymor hir. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith, y Rhaglen Waith a gweithredu system les y Deyrnas Unedig yn effeithiol yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau lefelau cyflogaeth uchel yng Nghymru.

2.7.4 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau yng Nghymru ac mae gan Weinidogion Cymru bwerau (ochr yn ochr â Gweinidogion y Deyrnas Unedig) i drefnu hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o gefnogi grwpiau penodol. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni i helpu pobl heb swyddi i ddatblygu eu sgiliau er mwyn dod o hyd i waith.

2.7.5 Soniodd Comisiwn Silk fod angen gwell cydlynu rhwng y ddwy Lywodraeth gyda golwg ar raglenni cyflogaeth er mwyn rheoli'n effeithiol y terfyn rhwng gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli. Yn benodol, dylid sicrhau cydlynu clos rhwng Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Ganolfan Byd Gwaith, a Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod rhaglenni cyflogaeth yn darparu'r cyfleoedd gorau i bobl yng Nghymru.

2.7.6 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno'n llwyr â'r consensws a gafwyd. Sefydlwyd y Gweithgor Mynediad i Gyflogaeth ym mis Chwefror 2013, gan ddwyn ynghyd y ddwy Lywodraeth a'u cyrff cynrychioladol i sicrhau bod rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Mae'r Grŵp wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r cymorth penodol a gynigir gan Raglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru a rhaglenni cymorth a gynigir i geiswyr gwaith gan Lywodraeth Cymru, gyda nawdd cronfeydd strwythurol Ewrop.

2.7.7 Mae'r cronfeydd strwythurol yn darparu arian ar raddfa wahanol iawn yng Nghymru ac yn Lloegr. Felly mae'r ddwy Lywodraeth a Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru wedi bod yn trafod yn rheolaidd i weld sut y gellir darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i geiswyr gwaith ar y Rhaglen Waith yng Nghymru, gan ystyried y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth.

2.7.8 Mae'r Gweithgor wrthi'n paratoi ei argymhellion terfynol, ac fe ragwelir y bydd y rhain yn canolbwyntio ar sut y gall gwell cydlynu rhwng y ddwy Lywodraeth barhau i wella mynediad i waith a darpariaeth sgiliau i bobl sy'n ceisio gwaith yng Nghymru.

2.8 Darlledu

2.8.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk. Nid oedd consensws o blaid derbyn argymhelliad 21 am S4C.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 19 | Dylai rheoleiddio darlledu barhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. |
| 20 | O ran y BBC, rydym yn argymhell: Creu corff llywodraethu datganoledig o fewn fframwaith Ymddiriedolaeth y Deyrnas Unedig sydd â phwerau i oruchwylio cynnyrch y BBC yng Nghymru ac i graffu arno; b. penodi cynrychiolydd Cymru ar gorff llywodraethu cyffredinol y BBC (Ymddiriedolaeth y BBC ar hyn o bryd) drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. |
| 22 | Dylai buddiannau Cymru gael eu cynrychioli ar fwrdd Ofcom drwy aelod o'r bwrdd â chyfrifoldeb penodol i gynrychioli Cymru. |
| 23 | Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darlledu cynnwys sy'n benodol ar gyfer Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol am eu perfformiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys data mwy tryloyw am dueddiadau yn allbwn darlledu Cymru. |

2.8.2 Casgliad Comisiwn Silk oedd nad oedd achos o blaid datganoli rheoleiddio darlledu ac ystyried bod y farchnad darlledu, o ran ei natur, yn farchnad Teyrnas Unedig gyfan. Credai'r Comisiwn fodd bynnag y dylai fod

gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru rôl gryfach i wella atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru.

2.8.3 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai darlledu gael ei reoleiddio ar lefel y Deyrnas Unedig ac ystyried swyddogaeth bwysig darlledwyr ym mywyd diwylliannol y Deyrnas Unedig ac ehangder gweithgarwch y sector yn yr oes ddigidol. Ond rydym hefyd yn sylweddoli bod angen i ddarlledu adlewyrchu'r gwahanol hunaniaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys, yng Nghymru, y swyddogaeth allweddol sydd gan ddarlledu Cymraeg yn cynnal ac yn datblygu defnyddio'r iaith.

2.8.4 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn croesawu'r consensws ynghylch llywodraethu'r BBC, ond mae'n nodi y dylid ystyried unrhyw benderfyniadau ynghylch newidiadau i strwythurau llywodraethu'r BBC fel rhan o'r adolygiad o Siarter y BBC sydd yn yr arfaeth²⁸. Mae'r Llywodraeth wedi dweud na fydd yr Adolygiad o'r Siarter yn dechrau tan ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015.

2.8.5 Ofcom yw rheolydd cyfathrebu annibynnol y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n goruchwyllo teledu, radio, telathrebu, ffonau symudol, gwasanaethau post a thonfeddi'r awyr. Mae ganddo swyddfa yng Nghymru a Phwyllgor Cynghori i Gymru i ystyried barn pobl Cymru wrth ddatblygu ei bolisiau a gwneud ei waith.

2.8.6 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y gellid cryfhau buddiannau Cymru rhagor o ran datblygu polisiau Ofcom. Dylid gwneud hyn drwy roi pŵer i Weinidogion Cymru benodi un aelod o fwrdd Ofcom sy'n gallu cynrychioli buddiannau Cymru. Byddai gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn penodi'r aelod. Byddai hyn yn help i sicrhau bod y bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol drwyddo draw.

2.8.7 Byddai'r penodiad yn gorfod cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer penodiadau i fyrddau'r cyrff cyhoeddus, sy'n cael ei bennu yn y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Byddai gan y sawl a benodid yr un cyfrifoldebau drwy'r Deyrnas Unedig ag sydd gan aelodau anweithredol eraill Ofcom.

2.8.8 Gyda golwg ar rôl newydd Gweinidogion Cymru, dylai fod gofyn i Ofcom anfon copi o'i adroddiad blynyddol atynt (i'w osod yn y Cynulliad) a byddai gofyn i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o ddatganiad cyfrifon Ofcom at Weinidogion Cymru (eto i'w osod yn y Cynulliad) Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r rheini a wneir yn yr Alban gyda golwg ar fwrdd Ofcom o ganlyniad i Gytundeb Comisiwn Smith.

²⁸Mae'r BBC wedi'i sefydlu drwy Siarter Frenhinol. Mae'r Siarter yn pennu cyfansoddiad y BBC, ei dibenion a rôl Ymddiriedolaeth y BBC a rôl y Bwrdd Gweithredol. Daw'r Siarter Frenhinol i ben ar 31 Rhagfyr 2016.

2.8.9 Roedd consensws o blaid derbyn egwyddor Argymhelliad 23 Comisiwn Silk - y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darlledu cynnwys sy'n benodol ar gyfer Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol am eu perfformiad i'r Cynulliad - ond roedd pryder hefyd y byddai derbyn yr argymhelliad yn rhoi baich ychwanegol a llafurus ar ddarlledwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol penodol ar gyfer y Cynulliad.

2.8.10 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn poeni am hynny hefyd, ond rydym yn cydnabod bod gan y Cynulliad ddiddordeb dilys yng nghynnwys Cymreig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn felly'n ceisio ymrwymiad gan y BBC ac S4C y dylent anfon eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon i'w gosod yn y Cynulliad.

2.9 Cyfiawnder

2.9.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|--|
| 27 | Dylid datganoli rhagor ar weinyddiaeth system y llysoedd, yn cynnwys trwy'r ffyrdd canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. dylai gwahanol adrannau'r Uchel Lys eistedd yn rheolaidd yng Nghymru i wrando ar achosion sy'n codi yng Nghymru, ac eithrio achosion arbenigol iawn; c. dylai adrannau'r Llys Apêl barhau i eistedd yng Nghymru, a gwneud hynny'n rheolaidd, i wrando ar achosion sy'n codi yng Nghymru; a d. ni ddylid ond dyrannu barnwyr y Llys Apêl i eistedd yng Nghymru os byddant yn bodloni'r Arglwydd Brif Ustus eu bod yn deall gofynion unigryw Cymru |
| 29 | Dylai fod o leiaf un barnwr yng Ngoruchaf Lys y Deyrnas Unedig sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth benodol o ofynion unigryw Cymru. |
| 30 | Dylai Gweinidogion Cymru barhau i gael cymhwysedd dros y tribiwnlysoedd mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli; a dylai'r berthynas rhwng y tribiwnlysoedd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli fod yn glir ac yn gydlynol; dylai'r broses benodi, hyfforddi a'r telerau ac amodau cyflogaeth fod yn gyson, a dylai'r tribiwnlysoedd gael eu gweld yn gyrrff sy'n annibynnol ar y llywodraeth. |
| 31 | Hyd nes y caiff ac oni chaiff cymorth cyfreithiol ei ddatganoli, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru ac â rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol yn gweithio mewn ffordd sy'n |

| | |
|----|---|
| | adlewyrchu amgylchiadau Cymru. |
| 35 | Dylid creu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, a fyddai'n dwyn ynghyd y ddwy Lywodraeth a'u hasiantaethau perthnasol. |
| 44 | Dylai'r ddwy Lywodraeth gydweithio i symleiddio'r system lles teulu presennol. Dylid seilio hyn ar yr egwyddor y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol allu deddfu ym meysydd y pwerau a'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau cyhoeddus yng nghyswllt oedolion a phlant sy'n agored i niwed |

2.9.2 Nid yw cyfiawnder yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli²⁹ ond mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi darparu gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru. Mae llawer iawn o gydweithio ac arferion da rhwng y cyrff sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y broses i'r rheini sy'n defnyddio'r system cyfiawnder yn broses ddi-fwlch.

2.9.3 Mae'r system les i deuluoedd yn rhan o'r system cyfiawnder lle bydd cyfrifoldebau'r ddwy lywodraeth yn rhyngweithio'n glos, ac ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad dros les (gan gynnwys oedolion a phlant agored i niwed). Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai'r system hon weithio mewn ffordd sy'n sicrhau cyn lleied o gymhlethdod â phosibl. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau mai felly y bydd hi.

2.9.4 Rydym yn cytuno bod ymgynghori effeithiol yn rhan bwysig o'r ddwy Lywodraeth yn cydweithio'n effeithiol ym maes materion cyfiawnder. Yn benodol, rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar lefel swyddogol, a lle bo hynny'n briodol, ar lefel Gweinidogion, wrth gyflwyno cynigion am faterion sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol ac iddo ddimensiwn Cymreig penodol.

2.9.5 Mae'n bwysig hefyd bod swyddogaethau'r tribiwnlysoedd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli'n cael eu diffinio'n glir. Byddwn yn archwilio gyda Llywodraeth Cymru a oes unrhyw feysydd lle y gellid gwneud swyddogaethau'r ddwy Lywodraeth yn fwy clir.

2.9.6 Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn 2011. Mae'n dwyn ynghyd yr adrannau a'r asiantaethau hynny yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â darparu cyfiawnder yng Nghymru³⁰, a Llywodraeth Cymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru gyda golwg ar weithrediad effeithiol y bwrdd.

²⁹ Mae rhai tribiwnlysoedd o fewn y system cyfiawnder ehangach wedi'u datganoli.

³⁰ Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Gwasanaeth Erllyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

2.9.7 Mae Cymru'n elwa o'r pwll mawr o arbenigedd a phrofiad cyfreithiol sy'n dod yn sgil bod yn rhan o un awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Bydd pob un o adrannau'r uchel lys a'r Llys Apêl yn eistedd yn rheolaidd yng Nghymru. Mae dealltwriaeth a chytundeb clir hefyd y bydd achosion Llys Gweinyddol Cymru'n cael eu clywed yng Nghymru pa bryd bynnag y bydd modd. Cytunwn y dylai hyn barhau.

2.9.8 A throi at argymhelliad y Comisiwn ynglŷn â chynrychiolaeth yng Ngoruchaf Lys y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n berthnasol i Gymru yn gyfraith sy'n berthnasol i Gymru ac i Loegr. Wrth i gorff o gyfraith ar wahân ddatblygu yng Nghymru, ac wrth i swyddi gweigion godi yn y Llys, ystyrir sut orau mae sicrhau bod Ynadon y Goruchaf Lys yn dal i feddu ar wybodaeth am ymarfer cyfraith pob rhan o'r Deyrnas Unedig a bod ganddynt brofiad ohono.

2.9.9 Mater i'r farnwriaeth yw dyrannu barnwyr i achosion y Goruchaf Lys. Mae Llywydd y Llys wedi dweud, lle bydd achos yn cynnwys apêl sy'n berthnasol i faterion datganoledig Cymru, y bydd y Goruchaf Lys, os oes modd, yn cynnwys barnwr sydd â phrofiad penodol o Gymru a gwybodaeth benodol amdani. Felly gwahoddwyd yr Arglwydd Brif Ustus i eistedd yn Farnwr Gweithredol ar y ddau achos diwethaf a gyfeiriwyd a oedd yn ymwneud â deddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad.

2.9.10 Mae Comisiwn y Gyfraith yn ystyried ar wahân sut y gellid gwella mynediad i'r gyfraith mewn meysydd datganoledig yn unol ag argymhelliad Comisiwn Silk, ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cefnogi'r nod hon.

2.9.11 Roedd consensws o blaid argymhelliad y Comisiwn na ddylid ond dyrannu barnwyr y Llys Apêl i eistedd yng Nghymru os byddant yn bodloni'r Arglwydd Brif Ustus eu bod yn deall gofynion unigryw Cymru. Rydym yn cefnogi hyn mewn egwyddor, a byddwn yn parhau i drafod â'r Arglwydd Brif Ustus sut y gellid ei roi ar waith.

2.9.12 Ar ôl trafod â'r Arglwydd Brif Ustus, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnwys deall anghenion penodol Cymru yn faen prawf wrth gynnal ymarferol dethol diweddar ar gyfer penodiadau barnwrol. Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn archwilio gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sut y gellid rhoi gofyniad tebyg ar waith a'i wneud yn orfodol wrth benodi i'r farnwriaeth yng Nghymru yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

2.9.13 Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â'r farnwriaeth a changhennau cyflawni'r system cyfiawnder yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod wedi'i harfogi'n briodol i ddelio ag integreiddio deddfwriaeth y Cynulliad, gan gynnwys drwy roi hyfforddiant barnwrol a chyingor i staff y llysoedd.

2.10 Y Gymraeg

2.10.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhelliad a ganlyn gan Gomisiwn Silk.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|------|---|
| 39 | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig ac adolygu sut y defnyddir y Gymraeg ym mhob rhan o'r llywodraeth, ac yn benodol yng nghyswllt diwygio unrhyw ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. |

2.10.2 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo'n llwyr i'r Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau'r Llywodraeth yn Gymraeg. Rydym yn credu ei bod yn hollbwysig darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg lle bo galw amdanynt. Gall siaradwyr Cymraeg eisoes gael gafael ar nifer o wasanaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cofrestru i bleidleisio, gwneud cais am lwfans gofalwr a threfnu prawf gyrru ymarferol.

2.10.3 Yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 sefydlwyd yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, cyn belled a bo hynny'n briodol ac yn rhesymol ymarferol.³¹

2.10.4 Seilir trefniadau darparu gwasanaethau Cymraeg Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gynlluniau iaith Gymraeg. Wrth i adrannau'r Llywodraeth fabwysiadu cynlluniau, mae hynny wedi gwneud llawer iawn i ehangu defnyddio'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan sicrhau llawer mwy o gyfleoedd i bobl gynnal trafodion â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chael gafael ar wasanaethau allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.10.5 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'i darpariaeth Gymraeg drwy sicrhau bod cynlluniau iaith Gymraeg o dan Ddeddf 1993 yn cael eu rhoi ar waith yn fwy trwyadl.

2.10.6 Mae Swyddfa Cymru ar hyn o bryd yn adolygu gwasanaethau'r Llywodraeth a ddarperir yn Gymraeg i benderfynu sut y gallant ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn well. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn help i lywio sut y gellir gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

2.10.7 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn derbyn yr egwyddor y dylid diwygio deddfwriaeth nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg yng

³¹ Mae'r Gymraeg yn awr yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, ac mae Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) y Cynulliad 2011 yn darparu ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac ynghylch trin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol nag yr ymdrinnir â'r Saesneg.

Nghymru. Rydym yn cytuno bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith, boed honno'n Gymraeg ynteu'n Saesneg, yn fater o arfer da.

2.10.8 Lleisiwyd pryder am gofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau yn Gymraeg. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwmo i raglen i ddiwygio cofrestru sifil yn y Senedd nesaf. Fel rhan o'r diwygio ehangach hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod modd cwblhau ffurflenni sy'n gysylltiedig â digwyddiadau pwysig bywyd a dyletswyddau dinesig yn Gymraeg.

2.10.9 Mae'r Gymraeg yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, ond Swyddfa Cymru sy'n arwain ar faterion y Gymraeg yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd yn dal i gefnogi Adrannau eraill wrth iddynt ddarparu eu gwasanaethau Cymraeg a bydd yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i gryfhau proffil y Gymraeg drwy'r Llywodraeth.

2.11 Argymhellion Eraill

2.2.1 Roedd consensws o blaid derbyn yr argymhellion a ganlyn gan Gomisiwn Silk.

| Rhif | Argymhelliad Comisiwn Silk |
|---------|---|
| 11 | Dylai'r ddwy Lywodraeth wella'r trefniadau casglu data economaidd am Gymru a gwella'r gallu modelu. |
| 17c a d | O ran Ystâd y Goron, rydym yn argymhell: c. dylid cyhoeddi'r memorandwm presennol sydd rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru a'i ddiweddarau'n rheolaidd. d. dylai Ystâd y Goron bwysleisio'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, yn enwedig wrth ddatblygu ynni ar y môr yng Nghymru. |
| A. 41 | Dylai'r ddwy Lywodraeth sicrhau eu bod yn deall swyddogaethau ei gilydd yn glir yng nghyswllt paratodau ac argyfyngau sifil. Dylid ceisio cytundeb ynghylch trosglwyddo pwerau gweithredol os bydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau cydnheredd. |
| A.43 | O ran cyfleodd cyfartal, rydym yn argymhell y dylid datganoli cymhwysedd deddfwriaethol: a. mewn perthynas â dyletswyddau penodol ym maes cydraddoldeb ar gyfer sector cyhoeddus datganoledig Cymru |
| A.48 | Dylai Prif Weinidog Cymru allu cyflwyno argymhellion ar gyfer Arglwydd Raglawiaeth yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog. |
| A. 57 | Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gael cymorth gan weision sifil sy'n aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Cartref; dylid annog a hwyluso secondiadau; a dylid sicrhau mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli staff. |

| | |
|-------|---|
| A. 58 | Dylai'r ddwy lywodraeth geisio meithrin gallu sector cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd yn fwy effeithiol a sydd wedi'u hintegreiddio'n well ac i sicrhau twf economaidd. |
| A. 59 | Dylid cryfhau gallu Adrannau Whitehall i ymdrin â materion Cymru, a dylai'r Adrannau fod yn fwy clir ynglŷn â hyd a lled eu cyfrifoldebau am wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig; a dylai manylion cyswllt a swyddogaethau cydlynwyr datganoli a phencampwyr fod ar gael i'r cyhoedd. |

Data Economaidd a Gallu Modelu

2.11.2 Gan adeiladu ar sail ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adroddiad cyntaf Comisiwn Silk, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eisoes yn arwain gweithgor ar draws pob un o'r pedair weinyddiaeth i ystyried pa ddata economaidd sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion adroddiadau statudol ac i fod yn gefn i ddatganoli pellach. Gwaith Llywodraeth Cymru yw ystyried ei gallu modelu, yn enwedig a fydd angen cynyddu hyn wrth ddatganoli rhagor o bwerau trethu.

Ystâd y Goron

2.11.3 Sefydliad masnachol yw Ystâd y Goron, ac mae'r Senedd wedi rhoi'r dasg iddo gynyddu gwerth y portffolio eiddo gwerth £9.4 biliwn y mae'n ei reoli a chreu elw er budd y genedl.

2.11.4 Yn 2013/14, cynhyrchodd Ystâd y Goron yng Nghymru refeniw gwarged crynswth gwerth £9.4 miliwn, ac mae Ystâd y Goron yn buddsoddi ac yn ailfuddsoddi'n rheolaidd mewn asedau yng Nghymru.

2.11.5 Mae Ystâd y Goron yn gweithio'n glos gyda'r gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Mae ganddo Femoranda Dealltwriaeth y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru ac â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi trafod yr argymhellion ag Ystâd y Goron ac mae'n cytuno y dylid cyhoeddi a diweddarau ei femorandwm â Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

2.11.6 Bydd Ystâd y Goron yn parhau i gefnogi cadwyn gyflenwi Cymru i'r graddau sy'n gyson â'r cyfreithiau perthnasol fel rhan o'i waith yn helpu i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau'n un o'r marchnadoedd mwyaf deniadol ar gyfer buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ar y môr mawr a'i bod yn elwa o'r cyfleoedd sy'n cael eu creu gan economi carbon isel sy'n ffynnu.

Paratodau ac Argyfyngau Sifil

2.11.7 Mae natur gymhleth paratodau ac argyfyngau sifil, a'u canlyniadau eang eu hystod nad oes bob tro modd eu rhagweld, yn golygu bod cyrff Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff nad ydynt wedi'u datganoli, megis yr

heddlu neu'r lluoedd arfog, yn gorfod gweithio'n glos â Llywodraeth Cymru a chyrff sydd wedi'u datganoli, megis y gwasanaeth iechyd, er mwyn sicrhau ymateb effeithiol.

2.11.8 Mae'n amlwg bod natur y cydweithredu hwn yn dibynnu ar natur y digwyddiad ei hun ond, yn gyffredinol, os bydd argyfwng yn codi mewn maes sydd wedi'i ddatganoli, gwaith yr ymatebwr perthnasol, ynghyd â Llywodraeth Cymru, fydd rheoli hyn.

2.11.9 Mae nifer o gyrff yng Nghymru yn cefnogi'r ymateb i ddigwyddiadau yng Nghymru, gan gynnwys Pwyllgor Paratodau ar gyfer Argyfyngau Sifil Cymru a'r Ganolfan Cydlynu Argyfwng (Cymru) - cyfleuster a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu a rhannu gwybodaeth yng Nghymru am argyfyngau sy'n datblygu.

2.11.10 Roedd consensws o blaid derbyn argymhelliad Comisiwn Silk y dylai'r ddwy Lywodraeth sicrhau eu bod yn deall swyddogaethau ei gilydd yn glir yng nghyswllt paratodau ac argyfyngau sifil. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno â hyn a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eglurdeb wrth symud at fodel cadw pwerau.

Cydraddoldeb

2.11.11 Mae gan y Cynulliad bwerau dros gyfleoedd cyfartal eisoes yng nghyswllt ystod eang o gyrff cyhoeddus datganoledig. Mae Cymru hefyd wedi'i chynrychioli gan ei phwyllgor statudol ei hun o fewn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dan gadeiryddiaeth Comisiynydd dynodedig. Mae gan y Pwyllgor hwn bwerau i gynghori Llywodraeth Cymru am effaith deddfwriaeth neu newidiadau i ddeddfwriaeth ar faterion sy'n effeithio ar Gymru.

2.11.12 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid datganoli cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yng nghyswllt y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dros y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn eithrio cyrff trawsffiniol.

Addysg Uwch ac Ymchwil

2.11.13 Roedd Comisiwn Silk yn argymhell y dylai'r Cynghorau Ymchwil a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion Cymru, yn benodol mewn perthynas â datblygu economaidd, ac y dylid dynodi aelod o'r Cyngor sydd â'r arbenigedd perthnasol i gynrychioli buddiannau Cymru ac i fod yn sianel ar gyfer cyfnewid gwybodaeth (Argymhelliad 46) Nododd y Comisiwn fod Cymru'n gyson wedi cael swm sylweddol lai o arian gan y Cynghorau Ymchwil na'i chyfran gymharol o boblogaeth y Deyrnas Unedig.

2.11.14 Mae'n amlwg bod angen i'r Cynghorau Ymchwil ac Innovate UK sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion Cymru, ac yn wir o anghenion pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ond fel y dywedodd y Comisiwn ei hun, dylent barhau i ddyrannu arian ar sail rhagoriaeth gystadleuol.

2.11.15 Roedd consensws bod angen mynd i'r afael â'r mater ond nid oedd consensws o blaid derbyn yr argymhelliad. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig ychwaith credu mai dynodi aelodau o'r cyrff hyn i gynrychioli buddiannau Cymru yw'r ateb iawn i'r broblem. Mae addysg uwch yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, ac rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gall sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ennill cyfran fwy o arian ymchwil y Deyrnas Unedig drwy sicrhau rhagoriaeth yn y cynigion a gyflwynir ganddynt.

Arglwydd Raglawiaethau

2.11.16 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno ei bod yn synhwyrol i Brif Weinidog Cymru argymhell penodi Arglwydd Raglawiaid yng Nghymru yn uniongyrchol i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig (a fydd yn ei dro yn cyflwyno argymhelliad i Ei Mawrhydi y Frenhines). Y drefn ar hyn o bryd yw bod Prif Weinidog Cymru yn rhoi enw unigolyn i'w benodi'n Arglwydd Raglaw i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac i hwnnw wedyn ei argymhell i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig. Mae'r newid hwn yn cysoni'r broses ar gyfer penodi Arglwydd Raglawiaid yng Nghymru â'r broses yn yr Alban.

Gallu ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth

2.11.17 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gael cymorth gan weision sifil sy'n aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Cartref. Mae manteision sylweddol o gael staff Llywodraeth Cymru yn rhannu'r un ethos, gwerthoedd a statws anwleidyddol y Gwasanaeth Sifil Cartref. Mae'n help hefyd werth secondio staff rhwng y ddwy lywodraeth, a dylid annog rhagor o gyfnewid.

2.11.18 O ran y gwasanaethau cyhoeddus sydd heb eu datganoli, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i'w darparu mewn ffordd mor effeithlon â phosibl yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n glos â Llywodraeth Cymru a'i gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn y meysydd niferus hynny lle mae angen i wasanaethau cyhoeddus sydd heb eu datganoli a'r rhai sydd wedi'u datganoli yng Nghymru gydweithio'n ddi-fwlch.

2.11.19 Mae Swyddfa'r Cabinet yn arwain ar gryfhau ymwybyddiaeth o ddatganoli yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n adolygu ar hyn o bryd sut mae'n mynd ati i gryfhau'r ymwybyddiaeth yn Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar wella'r ddealltwriaeth o ddatganoli drwy Whitehall. Bydd yr adolygiad hwn yn parhau i ystyried sut y gellid cryfhau gallu Adrannau i ymdrin â materion Cymru.

2.12 Costau

2.12.1 Cyn datganoli unrhyw swyddogaethau, bydd angen cytuno ar yr arian a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru o gyllidebau adrannol presennol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn unol ag egwyddorion sefydledig Peirianwaith y Llywodraeth. Mae Datganiad Polisi Ariannu Trysorlys EM yn pennu'r dull ar gyfer delio â chostau ychwanegol.

Pennod 3: Cytundeb Comisiwn Smith

Setliad sy'n Para i Gymru

3.1 Mae'r Papur Gorchymyn hwn yn bwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn ail adroddiad Comisiwn Silk. Bydd yn golygu setliad datganoli cryfach, eglurach, cadarnach i Gymru a hwnnw'n setliad a fydd yn para ar sail model cadw pwerau. Bydd y newidiadau hyn, a'r pwerau cyllidol sylweddol sy'n cael eu datganoli i Gymru, yn arwain at Gynulliad sydd â mwy o bwerau, sydd wedi'i osod ar sylfeini cadarn, ac a fydd yn fwy atebol i etholwyr yng Nghymru.

3.2 Bydd Deddf Cymru 2014 yn datganoli pecyn sylweddol o bwerau trethu a benthyca i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru, gan weithredu bron pob un o argymhellion adroddiad cyntaf Comisiwn Silk. Mae'n galluogi'r Cynulliad i sbarduno refferendwm ar ddatganoli elfen o'r dreth incwm i Gymru ac mae'n datganoli'r dreth dirlenwi a threth dir y dreth stamp. Pecyn sydd wedi'i deilwra ar gyfer Cymru ac amgylchiadau penodol datganoli Cymru yw hwn. Barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y dylai Llywodraeth Cymru wireddu'r manteision hyn drwy alw refferendwm yn fuan ar ddatganoli pwerau treth incwm³².

3.3 Ochr yn ochr â hyn, mae pobl yng Nghymru yn dal i elwa o fod yn rhan o Deyrnas Unedig gref, gydag, er enghraifft un arian cyfred, un farchnad a system bensiynau unedig.

3.4 Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn newid sylweddol yn nhrefniant datganoli Cymru. Ond gall fod lle i gyflwyno newidiadau pellach sy'n codi yn sgil Cytundeb Comisiwn Smith am ragor o ddatganoli i'r Alban. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu y gall Cytundeb Comisiwn Smith helpu i lywio'r drafodaeth yng Nghymru, ond nid i bennu canlyniadau'r drafodaeth honno. Fel rhan o broses Dydd Gŵyl Dewi felly, ymrwymwyd i archwilio i argymhellion Comisiwn Smith a phenderfynu pa rai y mae gofyn eu hystyried a'u dadansoddi ar gyfer Cymru.

3.5 Rydym wedi cadw mewn cof y datblygiadau diweddar ym myd datganoli yng Nghymru wrth edrych ar Gytundeb Comisiwn Smith, yn enwedig y datganoli cyllidol y darperir ar ei gyfer yn Neddf Cymru 2014. Fel y mae'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Ddeddf honno, mae pecyn Smith, yn yr un modd, wedi'i deilwra i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Alban.

Comisiwn Smith

3.6 Ar ôl Refferendwm Annibyniaeth yr Alban ar 18 Medi 2014, gofynnodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i'r Arglwydd Smith o Kelvin gynnull pob un o'r pum prif blaid wleidyddol yn yr Alban i drafod gyda'r nod o gytuno ar ragor o

³² Mae Adran 13 o Ddeddf Cymru 2014 yn galluogi'r Cynulliad i sbarduno refferendwm ar ddatganoli rhywfaint o dreth incwm.

ddatganoli i'r wlad honno. Cyhoeddwyd Cytundeb Comisiwn Smith³³ ar 27 Tachwedd 2014, ac mae'n cynnig pecyn sylweddol a chydlynol o bwerau newydd i Senedd yr Alban.

3.7 Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Bapur Gorchymyn³⁴, gan gynnwys cymalau drafft, yn ymateb i'r Cytundeb ar 22 Ionawr. Mae'r cymalau hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Cytundeb gael ei drosi'n gyfraith yn gyflym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

Cytundeb Comisiwn Smith a Chymru

3.8 Bydd angen meddwl yn ofalus cyn penderfynu pa elfennau anghyllidol o Gytundeb Comisiwn Smith a allai fod yn briodol i Gymru. Trafodir elfennau cyllidol pecyn y Llywodraeth ar gyfer Cymru yn y bennod nesaf. Nid yw'r hyn sy'n iawn ar gyfer datganoli i'r Alban o reidrydd yn iawn ar gyfer rhagor o ddatganoli i Gymru. Yn wir, mae setliad datganoli pob un o'r tair cenedl datganoledig - Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - yn wahanol, gan adlewyrchu'r gwahaniaethau rhyngddynt o ran eu hanes, eu daearyddiaeth, eu diwylliant a'u trefniadau sefydliadol.

3.9 Serch hynny, roedd consensws y byddai Cymru yn elwa o ddatganoli pwerau mewn ffordd debyg i'r rheini a argymhellwyd gan Gomisiwn Smith yng nghyswllt trefniadau gweithredu Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban, gan gynnwys datganoli etholiadau i Senedd yr Alban. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno y dylid rhoi'r cynigion hyn ar waith i'r Cynulliad, fel y nodir ym Mhennod 2.

3.10 Roedd Cytundeb Smith yn cynnwys argymhelliad y dylid datganoli i Senedd yr Alban drwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir o dan yr Alban. Cyhoeddodd y Llywodraeth gymal drafft i'r diben hwn yn ei hymateb i'r Cytundeb. Bydd y cymal yn datganoli i Weinidogion yr Alban y drefn bresennol ar gyfer trwyddedu chwilio am olew a nwy a'u hechdynnu. Bydd trwyddedu echdynnu olew a nwy dan y môr, a phob agwedd ar drethu derbyniadau am olew a nwy, yn dal yn bynciau a gedwir.

3.11 Yn ystod y trafodaethau gwleidyddol, gwelwyd consensws cryf o blaid datganoli'r un pwerau i Gymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno â'r consensws y dylid datganoli trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir yng Nghymru. Byddai'r pwerau hyn yn ategu pwerau cynllunio presennol y Cynulliad, ac yn golygu y gallai Gweinidogion Cymru arddel golwg strategol ar drwyddedu yng Nghymru yn y dyfodol

³³ http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The_Smith_Commission_Report-1.pdf

³⁴ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/397079/Scotland_End_uringSettlement_acc.pdf

3.12 Bydd gofyn gwneud rhagor o waith i benderfynu a fyddai rhoi'r rhannau anghyllidol eraill o Gytundeb Smith ar waith i Gymru er budd gorau Cymru a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw. Byddai angen cael eglurdeb ynglŷn ag i ba bwrpas y byddai pŵer yn cael ei ddatganoli. Dylid ystyried a dadansoddi argymhellion perthnasol Smith yng nghyd-destun Cymru dros y misoedd nesaf er mwyn gallu penderfynu'n fuan yn y Senedd nesaf pa rai y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer Cymru.

3.13 Ni fydd rhai o argymhellion Smith yn cael eu hystyried: er enghraifft mae'r rheini sydd eisoes wedi'u harchwilio fel rhan o broses Silk II (megis terfynau cyflymder ac Ystâd y Goron) a'r rheini lle y byddai gwahaniaethau rhwng setliadau datganoli Cymru a'r Alban yn golygu y byddai eu rhoi ar waith yn anymarferol (megis datganoli'r ffordd y mae tribiwnlysoedd cadw'n cael eu rheoli a'u gweithredu).

Pennod 4: Ariannu a Datganoli Cyllidol yng Nghymru

4.1 Yn ogystal â fframwaith cadw pwerau, argymhellion Silk II, ac argymhellion Smith ar gyfer materion anghyllidol yn yr Alban, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ystyried hefyd:

- pa rai o argymhellion Smith ar gyfer datganoli cyllidol yn yr Alban³⁵ y gallai fod gofyn eu dadansoddi a'u hystyried yn fwy manwl yng nghyd-destun Cymru; a
- threfniadau ariannu yng Nghymru.

4.2 Mae'n werth nodi bod y Llywodraeth hon eisoes wedi gwireddu rhaglen sylweddol o ddatganoli cyllidol yng Nghymru ac wedi ymrwymo i fuddsoddiadau mawr yn economi Cymru ers iddi ddod i rym yn 2010. Wrth wneud hynny, mae'r Llywodraeth wedi dangos, pan fydd rhagor o ddatganoli cyllidol yn iawn i Gymru, o fewn Teyrnas Unedig gref, y bydd yn gwneud hynny.

4.3 Cafodd Deddf Cymru 2014 Gydsyniad Brenhinol fis Rhagfyr diwethaf. Ymhlith amrywiaeth o gamau anghyllidol eraill, mae'n golygu y bydd modd cynnal refferendwm i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio treth incwm ac mae'n rhoi rheolaeth i Lywodraeth Cymru dros dreth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi, yn ogystal â phwerau benthyca newydd. Cyn rhoi'r pwerau newydd hyn ar waith, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu manteisio'n gynnar ar bwerau benthyca cyfyngedig sydd ar gael eisoes i'w defnyddio i wella'r M4.

4.4 Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth hon, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar y trefniadau i ddatganoli ardrethi busnes yn llwyr o fis Ebrill 2015 ymlaen. Er bod gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol eisoes ym maes ardrethi busnes yng Nghymru³⁶, nid yw'r refeniw a gynhyrchir yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei phennu ar hyn o bryd gyda golwg ar wariant sy'n cael ei ariannu drwy'r ardrethi busnes yn Lloegr (drwy gyfrwng Fformiwla Barnett). Bydd datganoli ardrethi busnes yn llwyr, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Silk, yn golygu y bydd swm y refeniw a ddaw o'r ardrethi busnes yng Nghymru yn effeithio'n uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

4.5 Yn sgil hyn, bydd gan Lywodraeth Cymru arf uniongyrchol arall i gefnogi a hybu twf yn economi Cymru ac elwa yn sgil hynny. Bydd y Cynulliad yn gyfrifol am 10% o'r holl drethi a gesglir yng Nghymru cyn cynnal refferendwm ynglŷn â threth incwm. Byddai cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm yng Nghymru yn ei gwneud yn gyfrifol am ddwywaith gymaint, neu am refeniw

³⁵ Mae 'Cyllidol' yn y cyd-destun hwn yn cynnwys argymhellion Smith ynghylch trethi a lles.

³⁶ Mae Pennawd 12 yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys "cyllid llywodraeth leol" yn rhestr y pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch. Mae hyn yn cynnwys ardrethi annomestig (busnes) a'r dreth gyngor.

sy'n werth oddeutu £2bn arall. Mae'r Cynulliad hefyd yn rheoli dros hanner y gwariant yng Nghymru³⁷.

4.6 Mae'r rhaglen diwygio cyllidol wedi'i chynllunio at bwrpas: grymuso Llywodraeth Cymru drwy roi iddi'r arfau a'r dulliau ysgogi y mae eu hangen arni i sicrhau rhagor o dwf a bod yn fwy atebol i bobl Cymru drwy godi mwy o'r arian y mae'n ei wario.

4.7 Ochr yn ochr â'r rhaglen hon, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cefnogi economi Cymru'n gyson er mwyn adeiladu Cymru gryfach. Er 2010, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi dros £1.3bn o bŵer gwario ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae ymrwymadau megis ariannu uwchraddio prif reilffordd Abertawe-Llundain a thalu bron hanner yr amcangyfrif o £500m i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd hefyd wedi ategu cefnogaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wella'r seilwaith yng Nghymru. Bydd carchar newydd yn cael ei godi yn Wrecsam, buddsoddiad gwerth £212 miliwn o bunnoedd a fydd yn cefnogi dros fil o swyddi, gan ddod â £23 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn. Fel rhan o'n pecyn gwerth £1.7 biliwn i ddod â band eang cyflym iawn i 95% o aelwydydd a busnesau drwy'r Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu bron £70 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyflymu Cymru.

4.8 Mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i rymuso Llywodraeth Cymru i gyflawni dros bobl Cymru. Mae'n bryd symud y drafodaeth yn ei blaen gan annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi eisoes, a'r pwerau y mae'n eu hennill yn awr, i dyfu ei heconomi.

Ariannu

4.9 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod opsiynau er mwyn gwireddu hyn. At y diben hwn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno i gyflwyno terfyn isaf ar gyfer lefel yr ariannu cymharol a gaiff Llywodraeth Cymru ganddi. Cytunir ar union lefel y terfyn isaf, a'r mecanwaith ar ei gyfer, ochr yn ochr â'r Adolygiad o Wariant nesaf.

4.10 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi deddfu gan ymateb i argymhellion Silk I i ganiatáu cynnal refferendwm ar bwerau i amrywio treth incwm yng Nghymru, a thrwy sicrhau nad oes darpariaeth 'camu clos' mae wedi tawelu'r pryderon a fynegwyd gynt gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn dod â sicrwydd tymor hir i drefniadau ariannu Cymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu ei bod yn bwysig i bobl Cymru gael llais. Gwneir y cytundeb hwn felly gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn galw refferendwm ar bwerau treth incwm yn y Senedd nesaf.

³⁷Ffigurau ar gyfer 2013/14 yw'r rhain sy'n deillio o Ddatganiadau Ystadegau Gwariant Cyhoeddus (PESA), cyhoeddiadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am ddadgyfuno derbyniadau trethi, ac Ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae gwariant sy'n cael ei gategoreiddio'n wariant "anadnabyddadwy" yn PESA, wedi'i ddyrannu drwy ddefnyddio cyfran o'r boblogaeth.

4.11 Bydd angen i'r trefniadau ariannu y tu hwnt i'r Senedd nesaf roi sylw llawn i bwerau a chyfrifoldebau newydd Llywodraeth Cymru, ac ystyried yr effaith sylweddol y gallai datganoli trethi ei chael ar ei hariannu. Byddai rhoi cyfraddau treth incwm ar waith yng Nghymru, er enghraifft, yn dyblu'r refeniw treth a fyddai o dan reolaeth y Cynulliad. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau ariannu tymor hir cynaliadwy o fewn fframwaith cyllidol cadarn sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir.

Bondiau

4.12 Bydd y pwerau benthyca newydd i Lywodraeth Cymru, a restrir yn Neddf Cymru 2014, yn cael eu hestyn er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi bondiau i'w benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf.

Treth Teithwyr Awyr

4.13 Yn y Senedd nesaf, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried yr achos a'r opsiynau gyda golwg ar ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad dros y Dreth Teithwyr Awyr. Cyn hyn, adolygir yr opsiynau posibl er mwyn lliniaru'r effeithiau ar feysydd awyr rhanbarthol yn sgil datganoli'r Dreth Teithwyr Awyr. Fel rhan o'r adolygiad hwn, cyhoeddir papur trafod erbyn yr haf yn archwilio datganoli ac amrywio cyfraddau'r Dreth Teithwyr Awyr yn Lloegr, a darparu cymorth i feysydd awyr rhanbarthol, gan gynnwys Maes Awyr Bryste.

Pennod 5: Edrych tua'r Dyfodol

5.1 Mae canlyniadau proses Dydd Gŵyl Dewi a restrir yn y ddogfen hon yn cynnig glasbrint ar gyfer setliad datganoli eglurach a mwy sefydlog i Gymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gobeithio y byddai eu rhoi ar waith yn help i ddod â sefydlogrwydd i'r setliad datganoli yng Nghymru, ac yn galluogi'r sefydliadau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru i ganolbwyntio'u hymdrechion ar sicrhau twf economaidd, swyddi a gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon.

5.2 Mae'r ymrwymïadau i ddatblygu datganoli yn y papur hwn wedi'u seilio ar ganlyniadau trafodaethau trawsbleidiol. Mae'r consensws hwn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen yn fuan yn y Senedd nesaf i ddeddfu ar gyfer setliad datganoli newydd i Gymru, pa blaid bynnag a fydd yn ffurfio'r Llywodraeth ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ar 7 Mai.

5.3 Mae rhagor o waith i'w wneud ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio i baratoi'r model cadw pwerau sydd wedi'i seilio ar y rhestr enghreifftiol yn Atodiad B. Pan gaiff ei ddrafftio, rydym yn bwriadu trafod y rhestr a'r model â Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad a phartïon eraill â budd er mwyn ceisio'u cytundeb i'w rhoi ar waith yn fuan yn y Senedd nesaf.

5.4 Rydym hefyd yn bwriadu ystyried a dadansoddi'n fwy manwl argymhellion Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban i benderfynu a oes dadl gref o blaid gweithredu unrhyw rai ohonynt yng Nghymru.

5.5 Rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio datganoli mewn rhai meysydd eraill nas ystyriwyd gan Gomisiwn Silk. Byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw achos a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru o blaid rhagor o ddatganoli ar ôl proses Dydd Gŵyl Dewi.

5.6 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gobeithio ac yn disgwyl y caiff y setliad datganoli newydd i Gymru ei roi ar waith cyn gynted â phosibl yn y Senedd newydd.

Atodiad A

Argymhellion Silk a Drafodwyd gan y Pleidiau Gwleidyddol

| Rhif | Argymhelliad | Derbyn yr argymhelliad |
|------|---|--|
| 1 | Rhoi Model Cadw Pwerau ar Waith. | Consensws |
| 2 | Trosglwyddo i Weinidogion Cymru'r pwerau a oedd gan Weinidogion y Goron cyn datganoli. Rhagdybio y dylid cydsynio i geisiadau'r Cynulliad yn y cyfamser | Dim consensws ynghylch trosglwyddo cyffredinol. Consensws ynghylch rhagdybio y dylid cydsynio |
| 3 | Dylai'r ddwy Lywodraeth restru a dosbarthu canllawiau arferion da sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng y llywodraethau a meysydd i'w datblygu. | Mae'r argymhellion yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r peirianwaith rhynglywodraethol. |
| 4 | Dylid darparu cod ymarfer statudol ynglŷn â'r berthynas rhwng y llywodraethau mewn Deddf Llywodraeth Cymru newydd. | |
| 5 | Dylai Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru archwilio ar y cyd y berthynas rhwng y llywodraethau. | |
| 6 | Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sefydlu Pwyllgor Rhynglywodraethol Cymru. | |
| 7 | Mecanwaith cyfryngu | |
| 8 | Dylai'r Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gydweithredu ar ddata economaidd cymharol a rhannu'r arferion gorau. | |
| 9 | Dylai'r ymagwedd at bolisiau cyflogaeth a hyfforddiant fod yn fwy eglur ac wedi'i chydlynu'n well. | Consensws |
| 10 | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ystyried polisiau economaidd y naill a'r llall. | Mae'r argymhelliad yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r peirianwaith rhynglywodraethol. |
| 11 | Dylai'r ddwy Lywodraeth i wella trefniadau casglu data economaidd am Gymru a gwella'r gallu modelu economaidd. | Consensws |
| 12a | Datganoli datblygu porthladdoedd | Consensws |
| 12c | Datganoli ariannu Network Rail yng nghyswllt rhwydwaith Cymru | Dim consensws |
| 12d | Datganoli terfynau cyflymder | Consensws |
| 12d | Datganoli terfynau yfed a gyrru | Dim consensws |
| 12e | Datganoli rheoleiddio bysiau, gan gynnwys swyddogaethau'r Comisiynydd Traffig | Consensws |
| 12f | Datganoli rheoleiddio taccis. | Consensws |
| 13 | Dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o ran yn y broses ymgynghori ar gyfer masnachfreintiau trawsffiniol. | Consensws |
| 14 | Dylid sicrhau cydlynu agos rhwng y ddwy Lywodraeth yng nghyswllt llwybrau sy'n croesi'r ffin. | Consensws |
| 15a | Dylid datganoli'r cyfrifoldeb am ganiatáu cynlluniau datblygu ynni ar gyfer prosiectau hyd at 350MW ar y tir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. | Consensws |
| 15b | Dylai fod yn ddyletswydd statudol ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymgynghori â Llywodraeth Cymru i ystyried polisiau cynllunio Cymru wrth ganiatáu | Consensws |

| | | |
|-----|---|--|
| | prosiectau dros 350MW. | |
| 15c | Dylai pob caniatâd datblygu cysylltiedig fod yn gyson â chyfrifoldeb dros y prif brosiect. | Consensws |
| 15d | Dylid datganoli'r cyfrifoldeb am roi trwyddedau morol ar gyfer dyfroedd môr mawr Cymru. | Consensws |
| 15e | Dylai Cymru fod yn gydradd â'r Alban a Gogledd Iwerddon yng nghyswllt y Contractau ar Gyfer Gwahaniaeth. | Consensws (ar sail cydraddoldeb â'r Alban) |
| 16a | Dylid datganoli pwerau dros garthffosiaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; | Consensws |
| 16b | Dylai'r terfyn cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr fod yn gyson â'r ffin genedlaethol | Consensws mewn egwyddor (gan nodi bod angen rhagor o waith ar y goblygiadau ymarferol) |
| 16c | Dylid sefydlu protocol ffurfiol rhynglywodraethol ar gyfer materion trawsffiniol. | I'w ystyried wrth wneud rhagor o waith ar A.16b |
| 16d | Dylid dileu pwerau deddfwriaethol a gweithredol presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd yng nghyswllt dŵr ac, yn lle hynny, sefydlu mecanweithiau rhynglywodraethol. | |
| 17a | Dylid penodi Comisiynydd Ystâd y Goron i Gymru mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. | Dim consensws |
| 17b | Dylid sefydlu un o swyddfeydd Ystâd y Goron yng Nghymru. | Dim consensws |
| 17c | Dylid cyhoeddi'r memorandwm presennol sydd rhwng Ystâd y Goron a Llywodraeth Cymru a'i ddiweddarau'n rheolaidd. | Consensws |
| 17d | Dylai Ystâd y Goron bwysleisio'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, yn enwedig wrth ddatblygu ynni ar y môr yng Nghymru. | Consensws |
| 18 | Dylid ymestyn cyfrifoldebau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru dros gadwraeth forl a thros drwyddedu yn ardal glannau Cymru i ddyfroedd môr mawr Cymru. | Consensws |
| 19 | Dylai rheoleiddio darlledu barhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. | Consensws |
| 20a | Dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn fframwaith Ymddiriedolaeth y Deyrnas Unedig sydd â phwerau i oruchwylio cynnyrch y BBC yng Nghymru ac i graffu arno. | Consensws mewn egwyddor, a dibynnu ar yr Adolygiad o Siarter y BBC |
| 20b | Dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar gorff llywodraethu cyffredinol y BBC (Ymddiriedolaeth y BBC ar hyn o bryd) drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. | |
| 21a | Dylai'r cyfrifoldeb am ariannu elfen gwariant cyhoeddus S4C gael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. | Dim consensws |
| 21b | Dylid cael cytundeb Llywodraeth Cymru i benodiadau aelodau Awdurdod S4C. | Dim consensws |
| 22 | Dylai buddiannau Cymru gael eu cynrychioli ar fwrdd Ofcom drwy aelod o'r bwrdd â chyfrifoldeb penodol i gynrychioli Cymru. | Consensws |
| 23 | Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darlledu cynnwys sy'n benodol ar gyfer Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol am eu perfformiad i'r Cynulliad Cenedlaethol. | Consensws yng nghyswllt adroddiadau blynyddol sy'n bodoli eisoes. |
| 24a | Datganoli plismona a'r meysydd diogelwch cymunedol ac atal troseddau cysylltiedig. | Dim consensws o blaid datganoli plismona |
| 24b | Dylai'r lefelau presennol o gydweithio trawsffiniol o fewn yr heddlu barhau. | |
| 24c | Ni ddylid datganoli pwerau yng nghyswllt arestio, holi a chyhuddo'r rheini yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd | |

| | | |
|-----|--|--|
| 24d | Ni ddylid datganoli'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | |
| 24e | Dylid datganoli cyflogau'r heddlu (ond nid pensiynau) | |
| 24f | Dylid cytuno ar systemau codi tâl a thelerau ar gyfer darparu gwasanaethau Coleg yr Heddlu, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM a chydwasanaethau ar ôl datganoli plismona. | |
| 25 | Datganoli cyfiawnder ieuenctid. | Dim consensws |
| 26a | Datganoli'r gwasanaethau carchardai a phrawf ar ôl cynnal astudiaeth ddichonolrwydd. | Dim consensws o blaid datganoli cyfiawnder troseddol |
| 26b | Mecanwaith ffurfiol i alluogi Gweinidogion Cymru gyfrannu at ddatblygu polisiau ym maes rheoli oedolion sy'n troseddu. | |
| 27a | Dylai'r Uchel Lys eistedd yn rheolaidd yng Nghymru | Consensws |
| 27b | Dylid sefydlu swyddfa Uchel Lys yng Nghymru. | Dim consensws |
| 27c | Dylai adrannau'r Llys Apêl barhau i eistedd yng Nghymru, a gwneud hynny'n rheolaidd. | Consensws |
| 27d | Ni ddylid ond dyrannu barnwyr y Llys Apêl i eistedd yng Nghymru os byddant yn bodloni'r Arglwydd Brif Ustus eu bod yn deall gofynion unigryw Cymru. | Consensws |
| 28 | O fewn deng mlynedd, dylid adolygu'r achos dros ddatganoli gwasanaeth y llysoedd, dedfrydu, cymorth cyfreithiol, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r farnwriaeth. | Dim consensws |
| 29 | Dylai fod o leiaf un barnwr yn y Goruchaf Lys sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth benodol o Gymru. | Consensws (gellir darparu ar gyfer hyn drwy'r ddeddfwriaeth bresennol) |
| 30 | Dylai'r berthynas rhwng y tribiwnlysoedd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli fod yn glir. | Consensws |
| 31 | Dylid ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol yn adlewyrchu amgylchiadau Cymru. | Consensws |
| 34 | Adroddiadau achlysurol ynglŷn â mynediad at gyfiawnder, a deialog reolaidd rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a Gweinidogion Cymru am weinyddu cyfiawnder. | Dim consensws o blaid adroddiadau achlysurol Consensws o blaid deialog reolaidd |
| 35 | Creu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru | Ar waith eisoes |
| 36 | Ni ddylid newid y setliad datganoli ym maes iechyd. | Consensws |
| 37a | Adolygiad rheolaidd o'r protocol iechyd trawsffiniol. | Consensws, gan nodi'r adolygiad presennol. |
| 37b | Protocolau unigol rhwng pob Bwrdd Iechyd Lleol ar y ffin yng Nghymru ac Ymddiriedolaethau cyffiniol y GIG yn Lloegr | Consensws |
| 37c | Ymagwedd gydweithredol at gyd-darparu gwasanaethau iechyd. | Consensws |
| 38 | Dylai'r system nawdd cymdeithasol barhau fel y mae ar hyn o bryd, heb ei datganoli. | Consensws |
| 39 | Dylai'r ddwy Lywodraeth adolygu sut y defnyddir y Gymraeg ym mhob rhan o'r llywodraeth, ac yn benodol yng nghyswllt diwygio unrhyw ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. | Consensws |
| 40 | Dylai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau adeiladu ar gyfer pob adeilad yng Nghymru | Consensws |
| 41 | Dylai'r ddwy Lywodraeth sicrhau eu bod yn deall yn glir swyddogaethau ei gilydd yng nghyswllt paratodau ac argyfyngau sifil | Consensws |

| | | |
|-----|---|--|
| 42 | Dylid datganoli etholiadau llywodraeth leol | Consensws |
| 43a | Dylid datganoli cymhwysedd dros ddyletswyddau cydraddoldeb ar gyfer sector cyhoeddus datganoledig Cymru. | Consensws |
| 43b | Dylid datganoli cymhwysedd dros atebolrwydd am y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli | Dim consensws |
| 44 | Dylai'r ddwy Lywodraeth gydweithio i symleiddio'r system lles teulu | Consensws |
| 45 | Dylid cael pwyllgor rhynglywodraethol ffurfiol ar gyfer Addysg Uwch ac ymchwil. | I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r peirianwaith rhyng-lywodraethol. |
| 46 | Aelod â'r arbenigedd perthnasol ar y Cynghorau Ymchwil a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg. | Consensws bod angen rhoi sylw i'r mater ond nid o blaid derbyn yr argymhelliad |
| 47 | Datganoli cyflogau ac amodau athrawon. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gadw'r cyfrifoldeb am bensïynau. | Dim consensws o blaid cyflogau Consensws o blaid pensïynau |
| 48 | Dylai Prif Weinidog Cymru gyflwyno argymhellion ar gyfer Arglwydd Raglawiaethau. | Consensws |
| 50 | Dylid cynyddu maint y Cynulliad Cenedlaethol. | Consensws i ddatganoli'r penderfyniad |
| 51a | Dileu'r gofyniad i Ysgrifenyddion Gwladol ymddangos gerbron y Cynulliad | Consensws |

(2) In sub-paragraph (1)—

(a) OJ No L 312, 22.11.2008, p.3.

(b) OJ No L 365, 19.12.2014, p.89.

“outdated List of Wastes” means—

- (a) the EU List of Wastes, as adopted on 3rd May 2000(a);
- (b) the EU List of Wastes, as amended by Commission Decision 2001/118/EC amending Decision 2000/532 as regards the list of wastes(b);
- (c) the EU List of Wastes, as last amended by Commission Decision 2001/119/EC amending Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste(c);
- (d) the EU List of Wastes, as last amended by Council Decision 2001/573/EC amending Commission Decision 2000/532/EC as regards the list of wastes(d); or
- (e) any of those lists as they were from time to time set out in the List of Wastes (England) Regulations 2005;

“six-digit code” means a six-digit code or a description of a six-digit code;

“updated List” means the list established by the EU List of Wastes, as last amended by Commission Decision 2014/955/EU amending Decision 2000/532/EC on the list of waste pursuant to Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council(e).

(3) In sub-paragraph (2), “the EU List of Wastes” means Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste.

Meaning of permit and standard rule

3. In this Schedule—

“permit” has the meaning given to “environmental permit” in regulation 13(1) of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010(f) and includes a marine licence granted under Part 4 of the Marine and Coastal Access Act 2009(g);

“standard rule” means any rule published under regulation 26(5) of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments to enactments which concern hazardous waste or cross-refer to other enactments or European Union instruments concerning hazardous waste.

Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on waste (Directive OJ No L 312, 22.11.08, p.3) (“the Directive”) was amended on 19th December 2014 by Commission Regulation (EU) No 1357/2014 (OJ No L 365, 19.12.14, p.89). Accordingly, paragraph (a) of regulation 2 updates references to the Directive in subsections (1)(b) and (2)(b) of section 62A of the Environmental Protection Act 1990 (c.43) (“the EPA 1990”). Other enactments are similarly updated (regulations 3(2) and 7(2)(a)).

On 30th December 2014 Commission Decision 2000/532/EC replacing Decision 94/3/EC establishing a list of wastes pursuant to Article 1(a) of Council Directive 75/442/EEC on waste and Council Decision 94/904/EC establishing a list of hazardous waste pursuant to Article 1(4) of

(a) OJ No L 226, 6.9.2000, p.3.

(b) OJ No L 47, 16.2.2001, p.1.

(c) OJ No L 47, 16.2.2001, p.32.

(d) OJ No L 203, 28.7.2001, p.18.

(e) OJ No L 370, 30.12.2014, p.44.

(f) S.I. 2010/675, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(g) 2009 c.23.

Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste (OJ No L 226, 6.9.2000, p.3) (“the List of Wastes”) was amended by Commission Decision 2014/955/EU (OJ No L 370, 30.12.2014, p.44). Paragraph (b) of regulation 2 amends subsection (3) of section 62A of the EPA 1990 such that the reference to the List of Wastes is a reference to that List as amended from time to time. Other enactments are amended with like effect (regulations 2(b), 3(4), 5(b), 7(3)(a)(i), 8(2) and 9).

Regulations 4, 6 and 7(2)(b) and (4) amend enactments as a consequence of Directive 2012/19/EU of the European Parliament and of the Council on waste electrical and electronic equipment (WEEE) (OJ No L 197, 24.7.2012, p.38). Regulation 10 revokes the List of Wastes (England) Regulations 2005 (S.I. 2005/895) and the List of Wastes (England) (Amendment) Regulations 2005 (S.I. 2005/1673). Schedule 2 contains transitional provisions.

An impact assessment has not been done for this instrument as no impact on business, the voluntary sector or the public sector is foreseen.

© Crown copyright 2015

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.00

UK201506054 06/2015 19585

<http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2015/1360>

Tudalen y pecyn 87

ISBN 978-0-11-113662-1



9 780111 136621

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (MCOS) gael ei osod, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Cafodd Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015 eu gosod gerbron y Senedd ar 9 Mehefin 2015 a byddant yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2015. Mae'r Rheoliadau ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1360/contents/made>

Crynodeb o'r Rheoliadau a'u hamcan

3. Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015 yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005, yn dirymu Rheoliadau Rhestr Wastraff (Lloegr) 2005, ac yn diwygio offerynnau statudol eraill, er mwyn newid deddfwriaeth yr UE ar wastraff peryglus, y modd y mae'n cael ei ddsbarthu, a materion cysylltiedig eraill:
 - a. Mae Rheoliad y Comisiwn 2008/1272 / EC, sef y Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Rheoleiddio Pecynnu, yn newid y modd y mae cemegau yn cael eu dosbarthu ac yn cyflwyno system sy'n seiliedig ar ddsbarthiadau peryglon, categorïau a chodau datganiad. Mae'r Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Rheoleiddio newydd yn mabwysiadu deddfwriaeth bresennol yr UE ar draws holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd ac yn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â System Gysoni Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar ddsbarthu a labelu cemegau, er enghraifft, mae'r diffiniad o *dangerous substance* wedi ei ddisodli bellach gan ddiffiniad o *hazardous substance*;
 - b. Mae Rheoliad y Comisiwn 1357/2014 yn disodli Atodiad III o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (2008/98 / EC) ("y Gyfarwyddeb Wastraff") ac yn gwneud newidiadau i'r modd y mae gwastraff peryglus yn cael ei godio a'i asesu; ac
 - c. Mae Penderfyniad y Comisiwn 2014/955 / EU yn gwneud newidiadau i Benderfyniad Rhestr Gwastraff yr UE (2000/532 / EC) fel ei bod yn cyd-fynd â'r Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Rheoleiddio Pecynnu ac Atodiad III o'r Gyfarwyddeb Wastraff. Mae'r newidiadau newydd hefyd yn cynnwys meini prawf i ddsbarthu gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs) yn wastraff peryglus unwaith y mae'r crynodiad yn y gwastraff ym mynd yn uwch na'r terfyn a bennwyd, ac maent hefyd yn diwygio nifer o godau gwastraff presennol. Hefyd, mae tri chod

gwastraff newydd yn ymwneud â mercwri metelaidd, mwd coch o gynhyrchu alwmina wedi cael eu hychwanegu at y Rhestr.

4. Mae Rheoliad y Comisiwn yn rhwymol ac yn cael effaith uniongyrchol yn y DU. Fodd bynnag, mae angen diwygio deddfwriaeth y DU i roi effaith briodol i ddeddfwriaeth yr UE, yn rhannol oherwydd bod deddfwriaeth ddomestig yn cael ei drafftio yn y fath fodd fel na fydd yn cael ei diweddarau'n awtomatig wrth i ddeddfwriaeth berthnasol yr UE newid.
5. O ganlyniad i'r newidiadau yng nghyfraith yr UE, mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015, ymhlith pethau eraill, yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 62A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("y Ddeddf") ar gyfer Cymru a Lloegr.
6. Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015 yn gymwys mewn perthynas â Lloegr, heblaw am y newidiadau a nodir yn rheoliadau 2 a 4 i 6, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.

Y ddarpariaeth sydd i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae adran 62A o'r Ddeddf yn cael ei diwygio gan reoliad 2, fel a ganlyn. Mae'r cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (2008/98 / EC) yn is-adrannau (1)(b) a (2)(b) yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau i Atodiad III o'r Gyfarwyddeb (Nodweddion mewn gwastraff sy'n ei wneud yn beryglus). Mae diwygio is-adran 3 yn creu cyfeiriad newidiadwy at Benderfyniad Rhestr Wastraffoedd yr UE (2000/532 / EC) fel na fydd angen diwygio'r adran hon o'r Ddeddf yn y dyfodol bob tro y newidir y Penderfyniad Rhestr Wastraffoedd ar lefel Ewropeaidd.
8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth a ddisgrifir ym mharagraff (7) uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus, ac atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff o dan baragraff 6 (Amgylchedd) o Ran 1, Atodlen 7, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pam mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?

9. Mae'r diwygiad, sy'n un mân a thechnegol ei natur, yn angenrheidiol yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE Mae'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i ddeddfwriaeth yr UE a amlinellir ym mharagraff 3. Nid yw termau Rheoliad y Comisiwn na'r diwygiad i'r Penderfyniad Rhestr Wastraffoedd yn rhoi unrhyw ddisgresiwn o ran polisi neu ddrafftio fel rhwng Cymru a Lloegr.
10. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r diwygiad i adran 62A yn y Rheoliadau hyn gan mai dyna'r modd mwyaf ymarferol a hwylus i wneud y diwygiad technegol hwn ar gyfer Cymru a Lloegr.

11. Roedd Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol blaenorol yn ymwneud ag Offerynnau Statudol y defnyddir y weithdrefn gadarnhaol ar eu cyfer yn Senedd y DU ac y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi cyn iddynt ddod yn gyfraith. Hwn fydd yr MCOS cyntaf yn y Cynulliad sy'n ymwneud â Rheoliadau a osodwyd yn y Senedd o dan y weithdrefn negyddol ac a fydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai bod gwrthwynebiad gan aelod o'r naill Dŷ neu'r llall. Gan hynny, byddai'r rheoliadau yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2015.

Goblygiadau ariannol

12. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Mehefin 2015

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwyywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partion.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CYNNIG AR GYFER RHEOLIAD GAN SENEDD EWROP A'R CYNGOR SY'N DIWYGIO RHEOLIAD (EC) RHIF 1 829/2003 YNGHYLCH Y POSIBILRWYDD Y GALL AELOD-WLADWRIAETHAU GYFYNGU AR, NEU WAHARDD, Y DEFNYDD O FWYD A BWYD ANIFEILIAID A ADDASWYD YN ENETIG AR EU TIRIOGAETH

Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Sybsidiaredd a chymesuredd

Y Cyd-destun Cyfreithiol

1. Mae egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd yn cael eu hymgorffori yn Erthygl 5 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd –

Article 5

(ex Article 5 TEC)

1. The limits of Union competences are governed by the principle of conferral. The use of Union competences is governed by the principles of subsidiarity and proportionality.

2. Under the principle of conferral, the Union shall act only within the limits of the competences conferred upon it by the Member States in the Treaties to attain the objectives set out therein. Competences not conferred upon the Union in the Treaties remain with the Member States.

3. Under the **principle of subsidiarity**, in areas which do not fall within its exclusive competence, the Union shall act only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States,

either at central level or at regional and local level, but can rather, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved at Union level.

The institutions of the Union shall apply the principle of subsidiarity as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. National Parliaments ensure compliance with the principle of subsidiarity in accordance with the procedure set out in that Protocol.

4. Under the **principle of proportionality**, the content and form of Union action shall not exceed what is necessary to achieve the objectives of the Treaties.

The institutions of the Union shall apply the principle of proportionality as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. EN C 83/18 Official Journal of the European Union.”

2. Llywodraethir y dull o'i chymhwyso gan y Protocol ar Gymhwyso Egwyddorion Sybsidiaredd a Chymesuredd, a'r rhan berthnasol ohono at ein dibenion ni yw paragraff cyntaf Erthygl 6 –

"Any national Parliament or any chamber of a national Parliament may, within eight weeks from the date of transmission of a draft legislative act, in the official languages of the Union, send to the Presidents of the European Parliament, the Council and the Commission a reasoned opinion stating why it considers that the draft in question does not comply with the principle of subsidiarity. It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers."[*ein pwyslais ni*]

Cynigion y Comisiwn

3. Ar 22 Ebrill 2015, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynnis ar gyfer Cyfarwyddeb newydd ar y defnydd o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig. Daeth y cynnis hwn yn sgil methiant Cyngor y Gweinidogion i sicrhau mwyafrif cymwysedig angenrheidiol naill ai o blaid neu yn erbyn cynigion ar y pwnc, gan adael y penderfyniadau hyn i'r Comisiwn Ewropeaidd.

4. Mae crynodeb y Comisiwn o'i gynnig wedi'i hatodi i'r nodyn hwn.

Dyma'r paragraff cyntaf:

“The Commission proposal amends Regulation (EC) No 1829/2003, under the ordinary legislative procedure, to introduce new provisions allowing Member States to restrict or prohibit the use of GMOs and GM food and feed covered by the GMO legal framework, in part or all of their territory, in complement to the possibilities already offered to Member States with respect to GMOs for cultivation by Directive (EU) 2015/412.” [ein pwyslais ni]

5. Mae Llywodraeth y DU wedi paratoi Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Pwyllgorau Seneddol ar faterion Ewropeaidd. Wrth drafod sybsidiaredd, mae'r Memorandwm yn datgan fel a ganlyn:

“MINISTERIAL RESPONSIBILITY

7. Responsibility lies with the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs. Whilst the Food Standards Agency (FSA) is the UK competent authority for GM food and feed, including the negotiation and operation of the EU decision-making process under Regulation (EC) No 1829/2003, the Defra Secretary of State is the lead Minister for GM issues. In practice, the FSA and Defra are working together closely to determine and take forward the UK Government's position on this proposal.

INTEREST OF THE DEVOLVED ADMINISTRATIONS (DAs)

8. The FSA and Defra are currently discussing with the DAs what implications the proposal has for devolved decision making in the UK. The DAs have been consulted in the preparation of this Explanatory Memorandum.” ...

“SUBSIDIARITY

11. In its subsidiarity assessment for the proposal (section 4.3.1 of COM(2015) 177 final), the Commission notes that:

the authorisation of GM food and feed products is currently subject to a fully harmonised process, the general objective of which is to ensure a high level of safety throughout the EU;

under the current EU regime, Member States have limited scope to take measures on GM food and feed on the basis of non-safety considerations;

the proposal would give Member States a new discretion to adopt measures on GM food and feed for reasons unrelated to safety, provided they are in accordance with EU law. This is on the assumption that national or local decision-making is the most appropriate approach in this context.

12. The Government concurs with the Commission's assessment that decisions on the marketing and use of GM food and feed products are currently an issue of EU competence, and that the proposal would introduce a new element of subsidiarity by giving Member States the discretion to ban or restrict the use of EU-approved GM products on non-safety grounds."

6. Byddai'r cynnig yn amlwg yn caniatáu gwneud penderfyniad i gyfyngu ar, neu wahardd, y defnydd o fwyd neu fwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yn yr holl Aelod-wladwriaeth neu ran ohoni. Nid yw Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn rhoi unrhyw arwydd y bydd gan y gweinyddiaethau datganoledig yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran eu tiriogaethau. Ymddengys fod y cynnig y Comisiwn yn cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd, ond mae'n bwysig sefydlu sut y byddai'r sybsidiaredd hwnnw yn gweithredu yn y Deyrnas Unedig.

7. Fodd bynnag, mae Senedd y Wladwriaeth yn Thüringen (yn yr Almaen) eisoes wedi codi pryderon ynghylch y broses sybsidiaredd. Mae wedi crynhoi'r pryderon hyn yn y Saesneg fel a ganlyn:

"Bearing in mind the very strict legal requirements set out by the Commission in its proposal, it is highly questionable whether it is actually possible for a Member State to adopt opt-out measures in compliance with EU-law, especially with regards to the international obligations of the Union. Questionable is also to

what extent the involvement of all 28 EU states in the mandatory notification and control procedure contributes to fulfil the intended objectives.”

8. **Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a yw'n dymuno gwahodd Llywodraeth Cymru i egluro –**

- a yw'n disgwyl gwneud ei phenderfyniad ei hun dros Gymru o dan y Rheoliad arfaethedig, a pha drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw; ac
- i ba raddau y mae'n rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Thuringen, os o gwbl.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mehafin 2015

ATODIAD – Dyfyniad o gynnig y Comisiwn

“4.1. Summary of the proposal

The Commission proposal amends Regulation (EC) No 1829/2003, under the ordinary legislative procedure, to introduce new provisions allowing Member States to restrict or prohibit the use of GMOs and GM food and feed covered by the GMO legal framework, in part or all of their territory, in complement to the possibilities already offered to Member States with respect to GMOs for cultivation by Directive (EU) 2015/412.

The additional powers granted to Member States under this proposal will only concern the possibility to adopt measures in accordance with the Treaty to restrict or prohibit the use of GMOs and GM food and feed on their territory after these products have been authorised. It will thus not affect the procedural and substantial conditions of the authorisation of GMOs and GM food and feed under Regulation (EC) No 1829/2003, which will remain valid for the whole territory of the Union.

The measures adopted by Member States need to be compatible with the internal market, and in particular Article 34 TFEU which prohibits measures of equivalent effects to quantitative restrictions to the free movement of goods.

That is why the Member States making use of this proposal will need to justify the measures taken based on grounds to be in accordance with Article 36 TFEU and the notion of overriding reasons of public interest as developed by the case-law of the Court of justice. In addition, the measures envisaged will need to be reasoned and to be compatible with the principles of proportionality and non-discrimination between national and non-national products. Finally these measures will need to comply with the international obligations of the Union.

It will be up to each Member State wanting to make use of this "opt-out" to justify the restriction or prohibition on a case-by-case basis, taking into account the GMO in question, the type of measure envisaged, and the specific circumstances at national or regional level that justify such an opt-out.

As for Directive (EU) 2015/412, Member States will not be allowed to use justifications linked to the assessment of risks to health or to the environment

which are comprehensively addressed in the authorisation decision and by the procedures already available in Regulation (EC) No 1829/2003, to address new risks (e.g. “emergency measures” under Article 34 or “supervision” under Articles 9 and 21).

The new possibility offered by the proposal does not cover the placing on the market and use of products not labelled as genetically modified, in accordance with labelling thresholds set under the GMO legal framework (e.g. under Articles 12 and 24 of Regulation (EC) No 1829/2003 food and feed containing an adventitious or technically unavoidable presence of GM material up to 0,9% by ingredient are not labelled).

The Member States which will restrict or prohibit the use of GMOs and GM food and feed already on the market will also have to preserve the rights of the operators, by providing them a reasonable period of time to allow the phasing out of the products concerned.”



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF CS 0561 15

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9fed Mehefin 2015

Annwyl David

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 1 Mehefin i roi tystiolaeth am Fil yr Amgylchedd (Cymru). Ymrwymais bryd hynny i roi rhagor o wybodaeth ichi er mwyn helpu i esbonio'r darpariaethau yn y Bil a sut yr wyf yn bwriadu iddynt weithredu'n ymarferol

Adran 22 – pŵer i atal dros dro ofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol

Os yw hynny'n debygol o gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, atal dros dro ddarpariaeth neu ddarpariaethau mewn deddfwriaeth. Bydd hynny'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"), lle bo angen, i ymgymryd â chynllun arbrofol (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 23 o'r Bil).

Mae atal darpariaeth neu ddarpariaethau dros dro yn golygu, i bob pwrpas, bod person yn cael ei esemptio rhag bodloni gofyniad statudol, neu fod y gofyniad yn cael ei lacio fel y mae'n gymwys i'r person hwnnw.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer nifer o ffyrdd o sicrhau bod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

- Dim ond ar ôl i CNC wneud cais manwl y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer.
- Rhaid i'r ataliad dros dro fod yn gysylltiedig â chynllun penodol ac felly â chymhwyso darpariaeth mewn perthynas â'r parti neu'r partiön a fydd yn gysylltiedig â'r cynllun. Nid yw, mewn unrhyw fodd, yn ataliad dros dro cyffredinol.
- Ni cheir darparu ar gyfer ataliad dros dro oni fydd yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r cynllun. Rhaid i'r cynllun ei hun fod yn berthnasol i arfer swyddogaethau statudol CNC.

- Ni chaiff yr ataliad dros dro bara mwy na thair blynedd. Bydd dyletswydd i ymgynghori, a bydd rhaid defnyddio'r weithdrefn penderfyniad Cadarnhaol.

Heblaw hynny, nid yw'r pŵer ond yn berthnasol i ddeddfwriaeth lle mae CNC yn gyfrifol am gymhwyso darpariaeth statudol, neu lle mae'r ddarpariaeth statudol yn gymwys i CNC ac i'r modd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli neu eu defnyddio, neu'n gymwys i'r dibenion y cânt eu rheoli neu eu defnyddio ar eu cyfer. Mae'r pŵer, felly, yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau penodol CNC.

Bydd fy adran yn cydweithio'n agos â CNC i sicrhau ei fod yn gwbl glir am y broses ar gyfer gwneud cais o'r fath i Weinidogion Cymru. Byddwn yn disgwyl i unrhyw gais gan CNC gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- Manylion am yr hyn y byddai'r cynllun arbrofol arfaethedig yn ei olygu, ei amcanion ac am ba hyd y disgwylid iddo barhau;
- Pam, neu ym mha ffordd, y byddai'r ddarpariaeth neu'r darpariaethau y bydd CNC wedi eu nodi yn rhwystr cyfreithiol i'r cynllun y mae'n bwriadu ymgymryd ag ef;
- Gwybodaeth am y partïon a fydd yn gysylltiedig â'r cynllun, gan gynnwys sut y byddant yn gysylltiedig ag ef;
- Asesiad o sut y bydd atal y ddarpariaeth neu'r darpariaethau o gymorth i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gwybodaeth ynghylch sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro.

Byddai Gweinidogion Cymru yn mynd ati wedyn i ystyried y cais. Fel y nodwyd, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn gwbl fodlon bod angen yr ataliad dros dro fel y bo modd ymgymryd â chynllun arbrofol, a bod y cynllun hwnnw'n debygol o gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Wrth ystyried, bydd yn rhaid hefyd i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheini y byddai'r ddarpariaeth yn effeithio arnynt ac â'r rheini y byddai'r cynllun arbrofol yn effeithio arnynt.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn fodlon y bydd y cynllun hwnnw yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd yn rhaid cael cytundeb y Cynulliad drwy'r weithdrefn Gadarnhaol cyn iddynt fedru defnyddio'r pŵer.

Ataliad dros dro ydyw: ni fydd yn cael para mwy na thair blynedd a bydd modd estyn y cyfnod hwnnw, ond dim mwy nag unwaith, am gyfnod arall o hyd at dair blynedd. Mewn achos o'r fath, byddai'r ataliad dros dro yn ei le am chwe blynedd ar y mwyaf.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynghylch o dan ba amgylchiadau y gallai CNC fod yn dymuno gwneud cais o'r fath, dylech gyfeirio at y Memorandwm Esboniadol, ac at y Datganiad o Fwriad y Polisi a'r enghreifftiau a roddir yn yr Atodiad i'r datganiad hwnnw..

[Bwriad y polisi mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd ac unedau carbon, a rhagor o wybodaeth am fasnachu carbon.](#)

Fel y dywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mehefin, mae'n dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd ac o ffyrdd i fynd i'r afael ag ef yn datblygu'n barhaus, ac mae'n hanfodol ein bod yn gallu ymateb yn gyflym i'r datblygiadau hynny. Drafftwyd y darpariaethau yn y Bil mewn modd a fydd yn caniatáu inni wneud hynny.

Mae adrannau 33 a 34 o'r Bil yn amlinellu sut y byddwn yn cyfrifo 'allyriadau Cymru'. Byddwn yn gwneud hynny drwy sefydlu 'cyfrif allyriadau net Cymru'.

Caiff 'cyfrif allyriadau net Cymru' ei gyfrifo'n rhannol drwy ychwanegu a thynnu unedau carbon.

Mae adran 36 yn caniatáu i 'unedau carbon' gael eu diffinio mewn rheoliadau ond cyfyngir y pŵer hwnnw i dri math o uned carbon. O fewn pob cynllun masnachu allyriadau cynhwysir allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rheoleiddio. Caiff y rheini eu diffinio fel uned carbon at ddibenion 'cyfrif allyriadau net Cymru'.

Wrth imi ysgrifennu'r llythyr hwn, y bwriad yw y bydd y diffiniad yn unedau o garbon y gellir eu masnachu, er enghraifft, yn yr un modd ag yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Mae'r EU ETS yn gweithio ar sail yr egwyddor 'cario a masnachu'. Caiff 'cap', neu derfyn ei osod ar gyfanswm y nwyon tŷ gwydr penodol y caiff ffatrioedd, gweithfeydd pŵer a gweithfeydd eraill yn y system eu hallyrru. Caiff y cap ei leihau dros amser fel y bo cyfanswm yr allyriadau'n gostwng.

Mae'r EU ETS yn gweithredu mewn cyfnodau, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gallai newidiadau a gyflwynir gan y Comisiwn olygu y byddai angen newid y modd y caiff carbon ei gyfrifo o dan y Bil. Dyna un o'r enghreifftiau y gall yr adrannau hyn ddarparu ar eu cyfer.

Wrth ddrafftio darpariaethau perthnasol y Bil, gwyddem fod yn rhaid wrth y gallu i addasu unrhyw ddulliau rheoleidiol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a hynny er mwyn darparu ar gyfer y ffaith bod darganfyddiadau gwyddonol a thechnolegol newydd yn dod i'r amlwg a bod cytundebau newydd yn cael eu gwneud ar y lefel ryngwladol ac is-genedlaethol. Un enghraifft fydd Cynhadledd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd 2015 ('UNFCCC') a fydd yn cael ei chynnal ym Mharis ym mis Rhagfyr eleni (ac a elwir yn 'COP21'). Mae'n bosibl hefyd y bydd blaenraglen waith y Cenhedloedd Unedig ar Leihau Allyriadau sy'n deillio o Ddatgoedwigo a Dirywiad Coedwigoedd ('REDD') yn arwain at gytundebau rhyngwladol newydd a fydd yn rhai rhwymol. Yma yn y DU, mae Cod Carbon Coetiroedd y DU a chynllun peilot Cod Mawndiroedd y DU yn enghreifftiau da o feysydd lle gellid gweld datblygiadau yn y dyfodol y bydd angen inni eu hystyried o ran yr effaith y byddant yn ei chael ar gyfrif allyriadau net Cymru.

Ychydig o enghreifftiau yn unig yw'r rhain, a chan y gallwn fod yn gwbl sicr y bydd rhagor o enghreifftiau yn y dyfodol, nid oeddem yn ei ystyried yn briodol cynnwys diffiniad ar wyneb y Bil. Mae peidio â gwneud hynny yn golygu y byddwn yn gallu addasu'r diffiniad er mwyn ystyried newidiadau ar lefel ryngwladol, Ewropeaidd neu ddomestig.

Fel y nodwyd yn y Datganiad am Fwriad y Polisi, byddwn am wneud y rheoliadau hynny cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol. Byddai'r gwaith hwnnw, o reidrwydd, yn dechnegol gymhleth, ac yn teilyngu cael ei ystyried a'i ddadansoddi'n ofalus. Fodd bynnag, byddai fy adran yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw ochr yn ochr â'r gwaith ar bennu'r cyllidebau carbon pum mlynedd.

Sut y mae cyfraith Cymru ar daliadau am fapiau siopa yn gweithredu o ran sut y mae'n gymwys i werthwyr yn Lloegr ac i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU

Bydd y tâl am fapiau siopa yn parhau i fod yn gymwys i werthwyr yn Lloegr yn yr un modd ag ar hyn o bryd. Yn unig wahaniaeth yn y ddeddfwriaeth arfaethedig yw y bydd y term "gwerthwr" yn cael ei ddiffinio bellach ar wyneb y Bil yn hytrach nag yn y rheoliadau. Mae adran 55 o'r Bil yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac mae, felly, yn dod o dan adran 108(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhaid i werthwyr, i'r graddau y maent yn gweithredu yng Nghymru, gydymffurfio â chyfraith Cymru. Bydd yn parhau'n ddaliad i'r uchfarchnadoedd yng Nghymru neu,

o ran hynny, i unrhyw fusnesau mewn unrhyw le arall yn y byd sy'n danfon nwyddau i gartrefi yng Nghymru, godi tâl am unrhyw fapiau siopa newydd y byddant yn eu cyflenwi.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mehefin, cyfeiriwyd at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cytundebau Atodol a luniwyd yn 2013 rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon. Mae'r egwyddor o gyfathrebu da rhwng gweinyddiaethau yn ymrwymiad penodol yn y Memorandwm hwnnw, yn enwedig os bydd gwaith un weinyddiaeth yn cael rhywfaint o effaith ar gyfrifoldebau gweinyddiaeth arall.

Er mai cytundeb rhwng Llywodraethau yw hwn, yn hytrach na chytundeb penodol ag Awdurdodau Lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ('LGA') yn Lloegr, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth y DU, i sicrhau bod unrhyw werthwyr sy'n gweithredu yng Nghymru yn cydymffurfio â chyfraith Cymru. Mae hyn wedi cynnwys ysgrifennu at yr LGA i egluro rôl awdurdodau cartref a phrif awdurdodau yn Lloegr wrth iddynt gynghori manwerthwyr mawr a chodi ymwybyddiaeth am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar orfodi.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i gadarnhau fy safbwynt ar adran 57 mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol. Rwyf yn fodlon bod y ddarpariaeth hon yn briodol er mwyn rhoi effaith i'r drefn codi taliadau am fapiau siopa a'i bod, felly, yn dod o fewn adran 108(5)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gan hynny, nid oes unrhyw ofyniad i ddangos bod yn rhaid i ddibenion elusennol fod yn gysylltiedig ag un neu fwy o'r pynciau yn Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

Y broses apelio yn adran 74 o'r Bil (pŵer i gyflwyno hysbysiadau er mwyn diogelu safleoedd morol Ewropeaidd) a'r berthynas rhyngddi a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Ar hyn o bryd, mae adran 5 o Ddeddf Pysgodfeydd (Pysgod Cregyn) 1967 yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gregyn os yw pethau penodol yn digwydd, er enghraifft, nad yw'r bysgodfa'n cael ei ffermio'n briodol.

Mae rhwymedigaethau ar Weinidogion Cymru (yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd) i warchod Safleoedd Morol Ewropeaidd ('EMS') yng Nghymru. Mae pryder ar hyn o bryd bod posibilrwydd nad yw'r pwerau yn adran 5 o Ddeddf 1967 bob amser yn ddigon i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

Bydd y diwygiadau a wneir i Ddeddf 1967 gan adrannau 74 a 75 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymryd y camau a fydd yn angenrheidiol er mwyn gwarchod Safleoedd Morol Ewropeaidd, os bydd pysgodfeydd cregyn a gaiff eu creu ar ôl i'r Bil ddod i rym yn achosi niwed i safle o'r fath, neu fod bygythiad iddynt wneud hynny. Bydd hyn yn fodd i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arnynt o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Bydd y pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno Hysbysiad Gwarchod Safle i grantïr bysgodfa o dan sylw yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei gweithredu (neu beidio â chael ei gweithredu) mewn ffordd benodol. Caiff Gweinidogion Cymru, wedi hynny, addasu neu ddirymu'r Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu'r Gorchymyn Rheoleiddio er mwyn adlewyrchu telerau'r Hysbysiad Gwarchod Safle. Dim ond i Orchymynion Pysgodfeydd Unigol neu Orchymynion Rheoleiddio a gaiff eu gwneud ar ôl i'r darpariaethau yn y Bil ddod i rym y bydd y pwerau newydd hyn yn gymwys. O'r herwydd, ni fydd y darpariaethau newydd yn effeithio ar unrhyw hawliau eiddo mewn pysgodfeydd cregyn sy'n bodoli eisoes. Bydd unrhyw hawliau eiddo a gaiff eu creu gan Orchymynion o'r

fath ar ôl i'r Bil ddod i rym yn cael eu creu yn ddarostyngedig i'r pwerau newydd i'w haddasu neu i ymyrryd â hwy.

Er y bydd y pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu i ddirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gregyn os bydd hynny er budd y cyhoedd (h.y. er mwyn gwarchod amgylchedd y môr lle y bo angen er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd ar Weinidogion Cymru o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), afraid dweud y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru hefyd i gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gan gadw hynny mewn cof, mae'r adran 5C newydd yn Neddf 1967 (a fewnosodir gan adran 74 o'r Bil) yn darparu trefn apelio briodol a fydd yn helpu i sicrhau y bydd unrhyw ymyrraeth â'r hawliau eiddo yn gymesur. Bydd, felly, yn diogelu hawliau eiddo yn ddigonol.

Ceir cyflwyno apêl mewn perthynas â Hysbysiad Gwarchod Safle i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a fydd â'r pŵer i gadarnhau, amrywio neu ganslo'r Hysbysiad Gwarchod Safle, ac i orchymyn i Weinidogion Cymru dalu iawndal os bydd hynny'n briodol. Mae gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd y pŵer i atal Hysbysiad Gwarchod Safle am gyfnod dros dro, neu ei hamrywio, hyd nes y penderfynir yn derfynol ar yr apêl.

Bydd pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu i ddirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio yn cael ei weithredu drwy Offeryn Statudol. Bydd y Cynulliad yn craffu ar offerynnau o'r fath o dan y weithdrefn Negyddol. Ni chaiff offeryn o'r fath ond adlewyrchu telerau'r Hysbysiad Gwarchod Safle ac ni fydd modd ei wneud tan ar ôl i gyfnod Apêl a gyflwynir mewn perthynas â'r hysbysiad ddod i ben neu hyd nes y penderfynir ar yr apêl. Felly, mae'r drefn apelio a nodir yn adran 74 hefyd yn effeithiol o ran diogelu mewn modd digonol unrhyw hawliau eiddo yr effeithir arnynt drwy wneud Gorchymyn diwygio neu ddirymu o dan adran 75 o'r Bil.

Credaf y bydd adrannau 74 a 75 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu i ddirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gregyn lle bo hynny er budd y cyhoedd – h.y. er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd – ac y bydd y drefn apelio newydd yn helpu i sicrhau y bydd unrhyw ymyrraeth â hawliau eiddo a fydd yn deillio o'r pwerau newydd hynny yn gymesur. Rwyf yn fodlon bod y darpariaethau hyn yn diogelu hawliau eiddo mewn modd digonol.

Gobeithio y bydd yr esboniadau hyn o gymorth ichi. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Bil ac ynghylch sut yr wyf yn ei weld yn gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cael copi o'r llythyr hwn.

Yn gywir



Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

CC: Alun Ffred Jones AM, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon